

**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

1pm – 28 Mawrth 2023
Wyneb yn Wyneb ac Ar-lein ar Microsoft Teams


AGENDA

Yn bresennol:

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:	
Rachel Barber – Cadeirydd John Cunliffe Allan Rainford	Julie Perkins Sarah Davies
SWYDDOGION YR HEDDLU:	
Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Guto Edwards – Pennaeth Cyllid Helen Williams – Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol Anne Matthews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau Y Prif Uwcharolygydd Dros Dro Helen Corcoran – Gwasanaethau Corfforaethol	James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth/Cadeirydd Bwrdd Sicrwydd Jenny Parry – Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol
SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:	
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid	Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr
ARALL YN BRESENNOL	
Helen Cargill, TIAA	Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

	Eitemau Sefydlog		Diben	Tudalen	Amser
1	Ymddiheuriadau a Datganiadau o Ddiddordeb	Cadeirydd			
2	Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 yn gywir.	Cadeirydd			5 mun
3	Cofnod Gweithrediadau	Cadeirydd			5 mun
	Eitemau Sefydlog				

4	Diweddariad Sefydliadol	Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Gwybodaeth		15 mun
5	Diweddariad AHM	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Sicrwydd		20 mun
6	Archwilio Mewnol a. SICA Archwilio Mewnol 2022/23 b. Adroddiad Rheolwyr	a. Archwilio Mewnol b. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Swyddog Cyllideb	Sicrwydd		10 mun
7	Diweddariad Risgiau - Datblygiad Proses Risg a Chofrestr Risgiau Bresennol - Cofrestr Risg SCHTh	Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Cyllid	Sicrwydd		10 mun
8	Rhaglen Waith 2023/24	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Phrif Swyddog Cyllid	Penderfyniad		5 mun
Eitemau Sefydlog					
9	Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)	Swyddfa Archwilio Cymru	Sicrwydd		10 mun
10	Rhaglen Gyfalaf – (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys)	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd		10 mun
11	Sesiwn Frifio Cyllideb – sut mae hyn yn newid risgiau a sut yr edrychir ar risgiau	Pennaeth Cyllid	Sicrwydd	Llafar	10 mun
12	Diweddariad Llywodraethu – gan gynnwys drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Prif Swyddog Cyllid	Gwybodaeth		5 mun
13	Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad drafft a thrafodaeth/Cylch Gorchwyl	Cadeirydd	Gwybodaeth	Llafar	10 mun
14	At wraidd y mater risg • Denu staff i ymgeisio am rolau allweddol o fewn HGC (Risg 81)	Pennaeth Datblygu Pobl a Sefydliadol Corfforaethol	Gwybodaeth		15 mun
Unrhyw Fater Arall (Hysbyswch y cadeirydd cyn y cyfarfod)					
DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL 27 Gorffennaf 2023 28 Medi 2023 7 Rhagfyr 2023					
		CYFANSWM			2.10 awr



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**Ystafell Gynhadledd 1 ac Ar-lein (Hybrid)
8 Rhagfyr 2022 am 9:30**

PRESENNOL

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO:

Rachel Barber – Cadeirydd
John Cunliffe
Allan Rainford
Julie Perkins

SWYDDOGION YR HEDDLU:

Seb Phillips – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau
Guto Edwards – Pennaeth Cyllid
Helen Williams – Cyfrifydd Rheoli Ariannol
Jonathan Bowcott – Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol
Philip Kenyon – Cyfreithiwr yr Heddlu
James Sutton – Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes
Kerrie Ambrose – Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg
Anna Pretious – Rheolwr Amgylcheddol ac Arbed Ynni (Eitem 15 yn unig)

SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD:

Wayne Jones – Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd
Stephen Hughes – Prif Swyddog Gweithredol
Kate Jackson – Prif Swyddog Cyllid
Angharad Jones – Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr (cofnodion)

POBL ERAILL YN BRESENNOL

Jonathan Maddock, TIAA
Michelle Phoenix, Archwilio Cymru

1. YMDDIHEURIADAU A DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Sara Davies – Aelod o'r CA
Helen Corcoran – Prif Uwcharolygydd, Gwasanaethau Corfforaethol
Anne Mathews – Swyddog Cyllid a Chyllidebau
Helen Cargill, Archwilio Mewnol, TIAA.

Datganiadau o ddiddordeb:

John Cunliffe – Aelod o'r Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr)
Kate Jackson – perthynas yn gweithio i Archwilio Cymru

2. COFNODION A CHOFNOD GWEITHREDIADAU

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

3. COFNOD GWEITHREDIADAU

Diweddarwyd y Cofnod Gweithrediadau a bydd yn cael ei gylchredeg gyda'r cofnodion. Y gweithrediadau a argymhellwyd eu cau ac a gytunwyd eu cau oedd: 1, 2, 4, 6, 7 ac 8.

4. DIWEDDARIAD SEFYDLIADOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru a roddodd ddiweddariad am y gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Hydref.

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad gan y Prif Swyddog Gweithredol ar o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ers y cyfarfod diwethaf.

Diolchodd y Prif Swyddog Gweithredol i'r aelodau wnaeth ddod i'r digwyddiad Ymgysfarwyddo'r diwrnod cynt. Dywedodd ei fod wedi bod yn ddiwrnod gwerth chweil a diolchodd i bawb a oedd ynghylch cynllunio/cyflawni'r diwrnod. Nodwyd hefyd fod cael aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio ac aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd o fudd.

Hysbyswyd fod arolwg ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiynydd Heddlu a Throsedd bellach ar agor er mwyn i'r cyhoedd gael dweud eu dweud ar flaenoriaethau strategol y Comisiynydd ac ysbrydoli lefel y praesept a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd ym mis Ionawr.

Bydd yr ymgynghoriad yn agored tan ddechrau mis Ionawr ac mae'n cael ei gyhoeddi'n eang. Nodwyd y byddai'n ddiddorol dysgu pa sianeli fydd yn cael eu defnyddio'n eang.

Gofynnodd y Cadeirydd i ddiolchiadau aelodau gael eu rhannu gyda phawb a oedd ynghlwm gyda'r digwyddiad Ymgysfarwyddo. Gofynnodd i unrhyw gyflwyniadau o'r diwrnod gael eu rhannu gydag aelodau a oedd yn methu bod yno.

Gweithrediad 1	Cyflwyniadau o'r digwyddiad Ymgysfarwyddo i gael eu cadw ar Google Drive er mwyn galluogi aelodau nad oedd yn bresennol i weld y cynnwys.
-------------------	---

Heddlu Gogledd Cymru

Diweddarodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Cydbwyllgor drwy eithriad ar faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r Heddlu ers cylchredeg yr adroddiad.

Nodwyd bod tanwariant refeniw wedi gostwng ers y cyfarfod diwethaf ond roedd yn parhau yn swm sylweddol o £5.5m.

Yn absenoldeb manylion o fewn datganiad y Canghellor, y dybiaeth ymarferol i blismona ydy y bydd Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr mis Hydref 2021 yn berthnasol gyda dau addasiad. Yr addasiadau

fyddai i'r ardoll gofal Iechyd a Chymdeithasol gael ei dynnu o'r ffigyrau ond y byddai'r cyllid dyfarniad cyflog ychwanegol yn cael ei ychwanegu.

Mae'r Prif Gwnstabl newydd yn ei swydd ac mae adolygiad gweithredol ehangach o'r heddlu ar waith. Mae'r Prif Gwnstabl yn gobeithio dod i gyfarfod o'r Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.

5. **DIWEDDARIAD HMICFRS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur.

Nododd Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr arolwg PEEL bellach ar ben. Gwnaed nifer o newidiadau i'r adroddiad, yn enwedig ynghylch cwestiwn 12 (Gwerth am Arian/cynllunio strategol). Disgwylir yr adroddiad olaf ym mis Ionawr ac fe'i rhennir gydag aelodau unwaith y'i derbynir.

Mae'r Heddlu wedi cael gwybod na fydd yr Arolwg Troseddau Difrifol a Threfnedig a Fetio yn digwydd ym mis Chwefror/Mawrth 2023. Nid oes dyddiad newydd wedi'i roi ynghylch pryd fydd yr arolwg hwn yn digwydd.

Bydd AHEF yn ymweld â Gogledd Cymru yn yr wythnos yn dechrau 12 Rhagfyr er mwyn edrych ar gynnydd o ran achosion sy'n peri pryder ac argymhellion yn codi o'r arolwg dirybudd o ddalfeydd yr heddlu. Mae'r Heddlu'n hyderus y caeir y mwyafrif o weithrediadau.

Holodd y Cadeirydd i sicrwydd gael ei roi o fewn adroddiadau'r dyfodol o ran cyflawni gweithrediadau a sut y gall y cydbwyllgor geisio sicrwydd fod yr Heddlu yn mynd i'r cyfeiriad iawn ac yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig gyda'r gweithrediadau hynny.

Bydd yr Uwcharolygydd yn mynd â hyn i ffwrdd ar gyfer y cyfarfod nesaf ac wedi hysbysu aelodau fod AHEF wedi cadarnhau y gwnânt dynnu/dileu sawl gweithrediad ac AFIs gan eu bod yn hanesyddol. Hysbyswyd fod y gweithrediadau a godwyd gan AHEF yn cael eu rheoli drwy'r Bwrdd Dysgu Sefydliadol.

Gweithrediad 2	Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod rhagor o fanylion o ran cyflawni gweithrediadau a risgiau cysylltiedig i'w cael o fewn papur cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.
-------------------	--

6. **ARCHWILIO MEWNOL**

a. SICA ARCHWILIO MEWNOL 2022-23

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2022-23. Nodwyd dim pryderon, ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda o ran y cynllun blynyddol cymeradwy. Mae pob adolygiad ar y gweill i gael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth.

Nododd aelodau'r pwyllgor fod nifer sylweddol o archwiliadau yn cael eu hymgymryd o hyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Gwnaethant ofyn am ddiweddariad ym mis Ionawr am archwiliadau wedi'u cwblhau/sydd ar ôl.

Gweithrediad 3	Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau i roi diweddariad i aelodau yn ystod mis Ionawr am archwiliadau wedi'u cwblhau a rhai sydd ar ôl ar gyfer 2022/23.
-------------------	--

b. TROSOLWG ARCHWILIO MEWNOL – ADRODDIAD RHEOLWYR

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch rheolaethau mewnol o fewn Heddlu Gogledd Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i swyddogion am ddiwygio fformat y papur sydd bellach yn canolbwyntio ar ymateb rheolwyr.

7. **DIWEDDARIAD RISG**

DATBLYGIAD PROSES RISG A CHOFRESTR RISGIAU PRESENNOL

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad a roddwyd o fewn y papur Diweddariad Risg ar 9 Tachwedd 2022.

Dywedodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio fod hysbys a rheoli risg mewn sefyllfa well o lawer nag yr oedd ychydig flynyddoedd yn ôl a diolchodd i'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a'i dîm am eu gwaith llafurus.

Ategodd y Cadeirydd ei diolch i'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a'i dîm am y sesiwn a gawsant ar risg a oedd o fudd i'r Cydbwyllgor.

Holodd y Cadeirydd a oedd risg gyffredinol i'r hinsawdd economaidd bresennol. Mae'n deall fod sefydliadau fel arfer yn edrych ar risgiau unigol ond holodd a oedd risg i'r sefydliad/sector cyfan ac a ydy hyn yn newid yr asesiad risg ar gyfer y sefydliad cyfan.

Dywedodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes fod hyn yn cael ei ymdrin yn rhannol drwy'r Cynllunio Parhad Busnes gyda chlwstwr o faterion yn cael eu hymchwilio a strwythur Aur/Arian/Efydd yn cael ei roi mewn lle i'w reoli. Gellid gosod risg ar y gofrestr, ond mae hyn yn cael ei reoli ar hyn o bryd drwy Barhad Busnes er mwyn sicrhau fod yr Heddlu yn barod ar gyfer yr heriau sy'n codi a bod y sefydliad yn barod er mwyn ymdrin â nhw.

Nododd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio y gall fod yn angenrheidiol yn y dyfodol dod â risg mwy cydberthynol at ei gilydd. Holodd y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes os gallai'r aelod rannu ei farn ynghylch sicrwydd risg gyda swyddogion.

Gweithrediad 4	John Cunliffe, aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i rannu ei farn ynghylch sicrwydd risg gyda swyddogion tu allan i'r cyfarfod.
-------------------	--

8. **RHAGLEN WAITH 2022/23**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r rhaglen waith ddiweddaraf a gyflwynwyd. Nododd y Prif Swyddog Cyllid y diweddarwyd y rhaglen drwy gydol y cyfarfod gyda sylwadau aelodau.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a ellid rhoi eitem ar yr agenda yn diweddarau aelodau ar y dreth gyngor/cyllideb a nodi unrhyw benderfyniadau anodd roedd rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a

Throsedd orfod ei wneud wrth osod y praesept. Holodd hefyd am wau hyn i'r diweddariad er mwyn egluro sut mae hyn yn newid ein barn am risg ac a oes unrhyw benderfyniadau a wnaed wedi creu mwy o risg.

Gweithrediad 5	Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith a chyflwyno papur diweddariad ar y praesept/cyllideb yng nghyfarfod mis Mawrth o'r CA.
-------------------	--

Hysbysodd y Prif Swyddog Gweithredol y bydd y lefel hon o fanylder yn cael ei chyflwyno i'r Panel Heddlu a Throsedd yng nghyfarfod mis Ionawr ac mai cyfarfod cyhoeddus ydy hwn ac felly mae croeso i aelodau ddod/gwyllo ar-lein.

Nododd aelodau nad ydy'r Cydbwyllgor yn gallu gweld risgiau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Nodwyd fod hyn yn rhywbeth sydd angen ei ymchwilio a holwyd sut y gellid cyflawni hyn.

Nododd swyddogion mai ond dau risg sydd ar Gofrestr Risg y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar hyn o bryd. Mae hyn gan fod rhai eraill ar Gofrestr Risg yr Heddlu gan eu bod yr un mor berthnasol i SCHTh. Ond croesawyd cyfarfod gydag Arweinydd Risg y Cydbwyllgor Archwilio er mwyn trafod.

Gweithrediad 6	Y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredol i gyfarfod gydag Arweinydd Risg y CA er mwyn edrych dros gofrestr risg SCHTh.
-------------------	--

9. **ARCHWILIO CYMRU – GWERTH AM ARIAN AC ADRODDIAD ARCHWILIAD BLYNYDDOL (LLYTHYR RHEOLWYR)**

Diweddarodd Archwilio Cymru'r Cydbwyllgor ar yr Adroddiad Archwilio Blynyddol.

Nodwyd fod y Llythyr Archwilio Blynyddol eto i'w gyhoeddi ac y byddai hyn yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr/Chwefror 2023 gan eu bod yn parhau i archwilio awdurdodau lleol. Dywedodd Archwilio Cymru nad oedd dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r llythyr hwn. Cadarnhawyd nad oedd materion sylfaenol gydag archwiliad blynyddol yr Heddlu y byddai'r llythyr, pan gyhoeddir, yn ei gadarnhau.

Holodd y Cydbwyllgor Archwilio am yr oedi mewn cyhoeddi'r llythyr hwn gan nad ydym yn awdurdod lleol. Dywedodd Archwilio Cymru fod yr Heddlu/Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu harchwilio o dan y ddeddfwriaeth awdurdodau lleol.

Nododd y Cadeirydd fod hyn yn anffodus ac nid yw'n rhoi hyder i'r bobl hynny sy'n gwyllo'n gyhoeddus fod y sefydliad mor dryloyw â phosibl heb fai arnyn nhw.

10. **CYFLAWNIAD RHEOLI'R TRYSORLYS**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r diweddariad chwe mis ar Reoli'r Trysorlys a'r gweithgarwch a ymgymerwyd o fewn chwe mis cyntaf 2022-23.

Nid oes toriadau wedi'u hysbysu o fewn y 6 mis diwethaf gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar hyn o bryd gyda mantolen gref sy'n arwain at sefyllfa buddsoddwyr net wrth symud ymlaen gyda dim angen arfaethedig i fenthyg yn y tymor canolig. Mae cyfraddau llog hefyd wedi cynyddu a fydd yn rhoi incwm ychwanegol sy'n cynorthwyo i leddfu'r cynnydd mewn costau ynni.

Nododd Aelod o'r Cydbwyllgor nad oes benthyca ar y gweill gan fod balansau mewnol yn uchel ar chwarter y gyllideb ac efallai nid ydy'r cyhoedd yn gyfforddus gyda hyn.

Dyweddod y Pennaeth Cyllid fod balansau'n neidio ym mis Gorffennaf gan fod yr Heddlu yn derbyn ei daliad grant pensiwn. Bydd yn rhoi brawddeg yn y naratif yn y dyfodol er mwyn egluro'r sefyllfa hon a'r hyn ydy'r balansau cyfartalog.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor am adolygiad o'r Rhestr Gwrthbarti a oedd yn canolbwyntio ar radd gredyd banciau. Ond o ystyried bod rhai awdurdodau lleol yn cael trafferth ac yn mynd i ddyledion sylweddol, a fyddai mwy o risg petai'r Heddlu'n buddsoddi gyda'r awdurdodau lleol hyn ac a fyddai Arlingclose yn rhoi hyfforddiant i aelodau ar reoli'r trysorlys.

Dyweddod y Pennaeth Cyllid y derbynnir cyngor gan Arlingclose bob dydd a phob wythnos, ar ben y strategaeth sylfaenol. Oherwydd hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru wedi tynnu rhai awdurdodau lleol oddi ar eu rhestr buddsoddiadau posibl ac nid oes ganddynt arian wedi'i fuddsoddi gyda chyrrff llywodraeth leol ar hyn o bryd.

Gwnaiff y Pennaeth Cyllid ofyn i Arlingclose os gallent ddarparu hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i aelodau.

Gweithrediad 7	Y Pennaeth Cyllid i ofyn i Arlingclose ddarparu hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i aelodau'r CA.
-------------------	---

11. RHAGLEN GYFALAF – DIWEDDARIAD

Gwnaeth aelodau'r Cydbwyllgor nodi cynnwys y papur a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gweithredol Strategol a rhannwyd y cyflwyniad yn ystod y cyfarfod.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio a oedd y prosiectau a ddangoswyd eu bod yn dechrau yn 2023/24 wedi cael eu cymeradwyo gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac a allai fod oedi mewn dyrannu.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid fod trafodaethau wedi bod yn parhau'n ystod yr wythnos ddiwethaf a bod y gwariant eto i'w gymeradwyo. Mae cynnydd mewn costau yn cael eu cadarnhau a'u cytuno ac mae adolygiad o werth am arian y prosiectau cyfalaf hyn yn cael eu hystyried hefyd.

Dyweddod y Cyfarwyddwr Cyllid fod craffu a llywodraethu ychwanegol wedi'i roi mewn lle a allai olygu oedi rhai prosiectau. Mae camau mewn lle er mwyn ymdrin â'r materion hyn ac adlewyrchir hyn yn y strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf a fydd yn cael eu cyhoeddi i'w cymeradwyo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Dyweddod y Cydbwyllgor y byddai'n ddefnyddiol gweld darlun mwy cyflawn o'r effaith gall oedi prosiectau ei gael ar y sefydliad, gan amlygu a fyddai'r Heddlu'n gwella neu'n dirywio o ran eu gallu i gadw ar y llwybr o ran gwariant cyfalaf.

Dyweddod swyddogion fod graff yn bodoli ac y byddai'n cael ei graffu ym Mwrdd Cyflawniad yr Heddlu ac mae'n faes o dan sylw o fewn y bwrdd hwn. Gellir rhannu'r graff hwn gydag aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Gweithrediad 8	Y Cyfarwyddwr Cyllid i rannu'r graff gydag aelodau o'r cydbwyllgor.
-------------------	---

Holodd aelodau a oedd cyllid ychwanegol allanol yn cael ei geisio er mwyn cynorthwyo adeiladu Gorsaf Heddlu Caergybi o ystyried fod rhai gofynion penodol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yr edrychir ar gyllid allanol ond y gwnaiff yr Heddlu asesu ynghylch a ydy'r adeiladu'n cynnig gwerth am arian o hyd ac os yw'r llwybr cywir.

12. **DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r gwaith a wnaed gan y Bwrdd Cyd-lywodraethu a'r mewnbwn a gafwyd gan y Bwrdd Sicrwydd.

Bydd drafft o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Cydbwyllgor Archwilio wedi'i osod ger bron y cyfarfod hwn, ond codwyd sawl pwynt yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Llywodraethu sy'n cael eu gweithio trwyddynt. Gobeithir gosod y Cylch Gorchwyl wedi'i ailddrafftio ger bron cyfarfod o bwyllgor mis Mawrth. Hyd nes y cyhoeddir y Cylch Gorchwyl diwygiedig, mae'r un presennol yn parhau.

13. **DIWEDDARIAD MOESEG**

Rhoddodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg ddiweddariad i aelodau ar weithgarwch y Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf a'r gwerth gall y pwyllgor ei ychwanegu.

Hysbysodd yr Is-gadeirydd y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn camu o'i rôl ac mae Heddlu Gogledd Cymru yn y broses o recriwtio cadeirydd allanol newydd.

Hysbyswyd fod y nifer o ddilemâu a dderbyniwyd wedi parhau'n gyson ond bod y rhai hynny a dderbyniwyd bellach yn fwy amrywiol mewn natur a chymhlethdod. Mae adborth rhanbarthol a chenedlaethol hefyd wedi'i dderbyn ar y pynciau a godwyd ac wedi'i fwydo'n ôl i swyddogion.

Holodd y Cadeirydd a oedd yr aelodaeth wedi parhau'n sefydlog ac a oes elfen o gysondeb yn parhau o fewn y Pwyllgor er mwyn cysoni ymdriniaeth. Hysbyswyd bod nifer o aelodau o'r Pwyllgor wedi bod ynghlwm ers y dechrau ond bod pobl eraill yn llawer mwy newydd. Mae hynny'n golygu fod amrywiaeth dda er mwyn sicrhau cysondeb ymdriniaeth ond dod a chyflwyno syniadau arloesol.

Holodd y Cadeirydd os oedd y Pwyllgor Moeseg wedi bod yn rhan o'r Adolygiad Llywodraethu a'r Archwiliadau Mewnol er mwyn sicrhau bod y prosesau'n gadarn a theg.

Hysbyswyd fod y Pwyllgor Moeseg yn cael eu cynnwys o fewn yr adolygiad llywodraethu blynyddol, ond nad oedd y swyddogion a oedd yn bresennol yn credu eu bod wedi ynghlwm gydag Archwiliadau Mewnol. Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau yn mynd i ffwrdd a hysbysu aelodau tu allan i'r cyfarfod.

Gweithrediad 9	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ganfod os oedd y Pwyllgor Moeseg wedi bod ynghlwm yn y broses Archwiliadau Mewnol.
-------------------	---

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor os oedd heddluoedd yn gofyn i newydd ddyfodiaid/swyddogion posibl os ydynt yn aelodau o sefydliad y Seiri Rhyddion.

Eglurodd Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg mai dyma'r rheswm pam fod y cwestiwn hwn wedi'i gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg Rhanbarthol gan yr hoffai Heddlu Gogledd Cymru weld barn yr Heddluoedd eraill gan ddeall fod y cwestiwn hwn yn cael ei drafod yn genedlaethol.

Gwnaiff y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau ofyn a ydy aelodaeth o'r Seiri Rhyddion fel rhan o unrhyw broses fetio ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor.

Gweithrediad 10	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i egluro a ofynnir i ymgeiswyr a ydynt yn aelodau o'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses ymgeisio/fetio.
--------------------	---

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod darn o ddeddfwriaeth mewn lle sy'n atal sefydliadau rhag gofyn a ydy ymgeiswyr yn aelodau o'r Seiri Rhyddion.

Holodd Aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio os oedd strwythur/proses Pwyllgor Moeseg Heddlu Gogledd Cymru wedi'i gymharu â rhai eraill gan fod sawl cyfeiriad wedi bod at y Pwyllgorau Rhanbarthol/Cenedlaethol.

Dywedodd Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Moeseg fod Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn strwythurau tebyg i'r rhai hynny o'r byrddau rhanbarthol/cenedlaethol. Ond fe'u gwelir fel enghraifft dda gan fod gan Ogledd Cymru Gadeirydd allanol, ac mae hyn yn rhywbeth mae llawer o fyrddau eraill yn eu copïo ac wedi recriwtio/yn recriwtio Cadeiryddion allanol.

Nodwyd fod y dilema Cofnodion Meddygol wedi'i grybwyll o fewn y cyflwyniad ond nad oedd eglurhad i'r hyn oedd y dilema hwn na'i ddiweddglo. Er mwyn rhoi sicrwydd i'r Cydbwyllgor Archwilio fod y broses hon yn gweithio, holodd y Cydbwyllgor os gallent weld y dilema a godwyd a'u canfyddiadau.

Mae'r Is-gadeirydd yn fodlon darparu'r dilema i'r Cydbwyllgor Archwilio ei ddarllen a gellir codi unrhyw gwestiynau sydd gan y Cydbwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Gweithrediad 11	Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg i rannu'r dilema a'r canlyniad gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.
--------------------	--

14. **DIWEDDARIAD CYFREITHIOL**

Nododd y Cydbwyllgor Archwilio'r papur sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch cyfreithiol o fewn yr Heddlu yn ystod y chwe mis diwethaf.

15. **SESIYNAU BRIFFIO – CYNALIADWYEDD A DATGARBONEIDDIO**

Rhoddodd y Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni drosolwg a diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y gwaith cynaliadwyedd a datgarboneiddio o fewn yr Heddlu ar hyn o bryd.

Hysbyswyd fod yr Heddlu ar hyn o bryd yn gweithio ar eu dogfennau mewnol ac allanol sy'n adrodd ar y gwaith sy'n cael ei gynnal o fewn y sefydliad ar leihau costau ynni a datgarboneiddio. Hysbyswyd fod y sefydliad angen ychwanegu at y gwaith presennol a hysbysu'r cyhoedd am y gwaith hwn.

Holodd aelod o'r Cydbwyllgor a oes gan yr Heddlu'r sgiliau/arbenigwyr/gwaith partneriaeth cywir mewn lle er mwyn dal i fyny gyda'r dechnoleg sydd ar y gweill

Hysbysodd Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni fod yr Heddlu yn rhan o rwydweithiau niferus sy'n rhannu arfer gorau ledled y wlad a bod arbenigwyr yn cael eu tynnu mewn er mwyn cynghori ar waith adeiladu ayyb. Mae dogfen Strategaeth Cymru Gyfan hefyd yn bodoli sy'n ddogfen wych.

Mae cynllun ariannol tymor canolig hefyd yn cael ei ddatblygu ond mae mwy sydd angen ei wneud er mwyn amlygu'r gwaith sy'n cael ei ymgymryd o fewn y stad ymhellach.

Holodd y Cadeirydd pa rôl sydd gan y Cydbwyllgor wrth sicrhau y gwneir y craffu cywir o ran amgylchedd, datgarboneiddio a chynaliadwyedd stad yr Heddlu.

Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau/Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni i ddod â phapur pellach i gyfarfod y Cydbwyllgor ym mis Mawrth 2023 er mwyn egluro rôl y Cydbwyllgor.

Gweithrediad 12	Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Rheolwr Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni i gyflwyno papur yn amlinellu rôl y CA wrth graffu gwaith.
--------------------	--

16. **UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu gwaith yn 2022 a dymunodd gyfarchion y tymor iddynt.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Archwilio ar 28 Mawrth am 1pm fel cyfarfod hybrid: yn y cnawd yn Ystafell Gynhadledd G15, Pencadlys yr Heddlu Bae Colwyn a dros Microsoft Teams.

**CYDBWYLLGOR ARCHWILIO
COFNOD GWEITHREDIADAU o 1.04.2022**

	Sesiwn Agored
	Wedi cau
	Wedi ei ohirio

Gweithrediadau newydd/agored o fis Mawrth 2021

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	Y SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
10/10/2022	9	Sesiwn Frifio at Wraidd y Mater – Strategaethau Cyfathrebu – SCHTh a HGC – Ystyried a bwydo'n ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio, o ran sut ydym yn rhoi gwerth am arian drwy gyfathrebu wedi'i reoli i'n holl gymunedau, er mwyn ychwanegu at hyder cyhoeddus.	Cyfredol	Pennaeth cyfathrebu ac ymgysylltu SCHTh a Phennaeth Cyfathrebu HGC	18/11/22 – Mae'r CCA wedi cysylltu a'r arweinwyr priodol er mwyn hysbysu y gwnaiff y CCA a'r Prif Swyddog Cyllid ystyried ymgysylltu a nhw ar gynllun cyfathrebu priodol. 08/12/2022 – Tryloywder ar danwariant yn parhau. 03/03/2022 – Wedi cynnwys agenda sesiwn gaeedig mis Mawrth 23 a fydd yn ystyried canfyddiadau adroddiad HMICFRS a rhoi diweddariad pellach.
08/12/2022	1	Diweddariad Sefydliadol – SCHTh – Cyflwyniadau o'r digwyddiad Ymgysylltu i gael eu cadw ar Google Drive er mwyn galluogi aelodau nad oedd yn bresennol i weld y cynnwys.	Ar unwaith	Cynorthwydd Personol i'r Prif Weithredwr	Cyflwyniadau wedi'u cadw ar Google Drive. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	Y SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
08/12/2022	2	Diweddariad HMICFRS – Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i sicrhau bod rhagor o fanylion o ran cyflawni gweithrediadau a risgiau cysylltiedig i'w cael o fewn papur cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.	Cyfarfod mis Mawrth	Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	03/03/2022 – Dolen Adroddiad PEEL HMICFRS i'w rhannu gydag aelodau'r CA cyn y cyfarfod a diweddariad PEEL HMICFRS i'w gynnwys ar agenda mis Mawrth 23. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	3	Archwilio Mewnol – SICA – Archwilio Mewnol a'r Swyddog Cyllid a Chyllidebau i roi diweddariad i aelodau yn ystod mis Ionawr am archwiliadau wedi'u cwblhau a rhai sydd ar ôl ar gyfer 2022/23.	Ionawr 2022	Archwilio Mewnol a Swyddog Cyllid a Chyllidebau	21/12/2022 – Rhannwyd diweddariad gydag aelodau o'r CA Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	4	Diweddariad Risgiau – John Cunliffe, aelod o'r Cydbwyllgor Archwilio i rannu ei farn ynghylch sicrwydd risg gyda swyddogion tu allan i'r cyfarfod.	Cyn gynted â phosibl	John Cunliffe – Aelod o'r CA	06/03/2023 – E-bost wedi'i anfon at y Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes i roi barn ar ddal risgiau a'i sicrwydd. Trafodir ymhellach gyda swyddogion os oes angen.
08/12/2022	5	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid i ddiweddarau'r Rhaglen Waith a chyflwyno papur diweddariad ar y praesept/cyllideb yng nghyfarfod mis Mawrth o'r CA.	Cyfarfod mis Mawrth	Prif Swyddog Cyllid	01/03/2022 – Dolen i bapurau'r Panel Heddlu a Throedd isod. https://modgoveng.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=800&MId=9252&Ver=4 Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	6	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Swyddog Gweithredol i gyfarfod gydag Arweinydd	Cyn gynted â phosibl	Prif Swyddog Cyllid / Prif Weithredwr	14/2/23 – Gwnaeth y Prif Swyddog Cyllid gyfarfod ag Arweinydd Risg y CA ar 14/2/23. Trafodwyd y risgiau presennol ar gofrestr risgiau corfforaethol SCHTh. Ar ben hyn, argymhellodd Arweinydd Risg y CA, y dylid adolygu risgiau comisiynu yn benodol er mwyn asesu a oes

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	Y SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		Risg y CA er mwyn edrych dros gofrestr risg SCHTh.			angen eu cynnwys ar gofrestr risgiau corfforaethol SCHTh. Trafodwyd y risgiau hyn. Penderfynwyd peidio ychwanegu unrhyw un at y gofrestr risgiau corfforaethol ar hyn o bryd. Adolygir hyn yn rheolaidd.
08/12/2022	7	Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys – Y Pennaeth Cyllid i ofyn i Arlingclose ddarparu hyfforddiant Rheoli'r Trysorlys i aelodau'r CA.	Cyn gynted â phosibl	Pennaeth Cyllid	22/12/22 – Mae cyngor y Trysorlys wedi'i anfon allan i dendr gyda dyddiad cau sef dechrau mis Ionawr.
08/12/2022	8	Rhaglen Gyfalaf – Diweddariad – Y Cyfarwyddwr Cyllid i rannu'r graff gydag aelodau o'r cydbwyllgor.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	06/03/2023 – Casgliad o sleidiau'n amlinellu cyflawniad ariannol parth Gwariant cyfalaf a rannwyd gydag aelodau o'r cydbwyllgor. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	9	Diweddariad Moeseg – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ganfod os oedd y Pwyllgor Moeseg wedi bod ynghlwm yn y broses Archwiliadau Mewnol.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/03/2022 – Ni ymgymerwyd ag archwiliadau Moeseg penodol yn ddiweddar ac ni sbardunwyd gweithgarwch TIAA o ganlyniad i'r Pwyllgor Moeseg. Awgrymu Cau Gweithrediad. Awgrymu cau'r gweithrediad..
08/12/2022	10	Diweddariad Moeseg – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i egluro a ofynnir i ymgeiswyr a ydynt yn aelodau o'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses ymgeisio/fetio.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	02/03/2022 – Eglurodd y CCA gyda Rheolwr Fetio'r Heddlu a gadarnhaodd nad oes ymchwiliad penodol i'r Seiri Rhyddion fel rhan o'r broses fetio. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2022	11	Diweddariad Moeseg – Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg i rannu'r dilema a'r canlyniad gydag aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio.	Ar unwaith	Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg	03/03/2022 – Y cyd-destun ar gyfer gweithredu oedd mater moesegol y cofnodion meddygol. Rhannwyd gwybodaeth bellach gydag aelodau o'r cydbwyllgor drwy yriant grŵp yn dilyn y cyfarfod. Awgrymu Cau Gweithrediad.
08/12/2022	12	Sesiynau Briffio – Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a Rheolwr	Erbyn cyfarfod mis Mawrth	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Rheolwr Gwarchod 14 o y101	06/03/2023 – Y bwriad ydy ystyried ymhellach ynghyd â Chylch Gorchwyl y CA ond y prif faes canolbwynt lle gallai'r CA ychwanegu gwerth fyddai o ran cydymffurfio gyda deddfwriaeth; cydymffurfiaeth gyda pholisi'r heddlu; ac unwaith y datblygir, craffu cynnydd cyfnodol o ran cynlluniau'r heddlu.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	Y SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
		Gwarchod yr Amgylchedd ac Ynni i gyflwyno papur yn amlinellu rôl y CA wrth graffu gwaith.		Amgylchedd ac Ynni	

Gweithrediadau caeedig ers y cyfarfod diwethaf – archifwyd ym mis Ebrill 2022 – ar gael ar gais

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
08/12/2021	2	Diweddariad Sefydliad – Prif Swyddog Gweithredol i roi diweddariad pellach ar strwythur llywodraethu'r gwasanaeth comisiynu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio yn y dyfodol.	28/07/2022	Prif Swyddog Gweithredol	16.03.2022 – Mae papur wedi'i baratoi yn defnyddio'r cyllid Strydoedd Diogelach fel enghraifft i roi sicrwydd i aelodau'r CA ar y llywodraethu mewn lle pan sicrheir cyllid allanol. Cylchredwyd 16.03.2022. Awgrymu cau'r gweithrediad. 01.04.2022 Y Prif Swyddog Cyllid i drefnu Adroddiad at Wraidd y Mater llywodraethu gwasanaethau comisiynu i'r rhaglen waith.
08/12/2021	3	Diweddariad Sefydliad – Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau am ddarparu adborth pellach ar weithgarwch sy'n cael eu hymgymryd er mwyn sicrhau y llwyddir recriwtio rolau anodd eu llenwi.	28/03/2022	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	04/04/2022 – Mae Pennaeth DPS wedi sefydlu gweithgor wythnosol sy'n canolbwyntio ar ymdrin â'r swyddi 'anodd eu llenwi'. Mae ystod o swyddi'n cael eu hystyried ar hyn o bryd, o TGCh, Data, Caffael, ac eraill. Mae'r diweddariad wythnosol diweddaraf wedi'i rannu gydag aelodau'r CA drwy yriant a rennir Google. 01.04.2022 – Aelodau'n methu darllen fel cyfarwyddyd. Wedi cadw ar Google Drive mewn fformat gwahanol. 04.04.2022 – Mae'r ddogfen bellach wedi'i chadw i'r Google Drive yn fformat Word. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	1	Munud – Prif Swyddog Cyllid i gysylltu gyda'u cyfatebwr yn SCHTh De Cymru er mwyn trafod cyfranogiad aelodau'r CA yn y broses gaffael Archwilio Mewnol.	10/01/2022	Prif Swyddog Cyllid	Mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi anfon manylion ymlaen am ddau aelod o CA Gogledd Cymru at y Prif Swyddog Cyllid yn Heddlu De Cymru. Gwnaeth aelod y CA gyda chydweithwyr Cymru gyfan.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Gweithrediad wedi cau.
08/12/2021	4	Diweddariad Sefydliad – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddarparu diweddariadau rheolaidd i Aelodau'r Cydbwyllgor o ran y cerrig milltir mawr o fewn cyflwyno'r rhaglen NEP.	Cyfredol	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	15/02/2022: Mae Rheolwr Prosiect a'r Rheolwr Rhaglen wedi rhoi rhestr o gerrig milltir a statws ar gynnydd. Gellir rhoi diweddariadau pellach ar gynnydd yn chwarterol yn ôl yr angen. Mae'r cerrig milltir wedi'u rhannu gyda holl aelodau'r CA. Diweddariad wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Sefydliadol. 01.04.2022 – I'w osod fel eitem sefydlog ar agenda'r CA a chyfarfod all-lein misol gydag aelod o'r CA er mwyn cynorthwyo i sicrhau a bwydo i'r rhaglen waith. i sicrhau bod gweithrediadau Archwilio Mewnol yn cael eu hadolygu. 22.06.2022 – Cyfarfodydd misol rheolaidd yn digwydd i adolygu cynnydd ar y rhaglen ddigidol rhwng y Pennaeth Newid a Chydweithrediad, Pennaeth Technoleg ac arweinydd y CA. Diweddariadau pellach i'w cynnwys ar agenda'r CA yn ôl yr angen. Awgrymu cau'r gweithrediad.
08/12/2021	10	Rhaglen Waith 2021/22 – Y Cydbwyllgor Archwilio i hysbysu'r Prif Swyddog Cyllid o ran dyddiadau addas ar gyfer cynnal digwyddiad Cydbwyllgor Archwilio Cymru Gyfan.	10/01/2022	Prif Swyddog Cyllid	13/12/2021 – Anfonwyd e-bost at aelodau'r CA yn gofyn iddynt ymateb gydag unrhyw ddyddiadau anaddas. 01.04.2022 – Gobeithio cael dau ddyddiad yn y dyddiadur, un ar gyfer hyfforddiant ffurfiol ac un ymgynulliad anffurfiol. Trafodir dyddiadau cyn gynted â phosibl. 01.04.2022 – dyddiadau posibl wedi'u cylchredeg 05.04.2022 – argaeledd wedi'i rannu gyda swyddfa CHTh De Cymru sy'n trefnu'r digwyddiad. Digwyddiad wedi'i drefnu ar gyfer 7 Mehefin. Gweithrediad wedi cau.
08/12/2021	12	Rhaglen Gyfalaf – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu cyflwyniad Diweddariad Cynnydd y Rhaglen Gyfalaf gydag aelodau.	23/12/2021	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	09/12/2021 – Cyflwyniad wedi'i roi ar Google Drive er gwybodaeth i aelodau. 01.04.2022 Eitem i'w ychwanegu i'r rhaglen waith. Gweithrediad a argymhellwyd wedi cau.
01/04/2022	2	Diweddariad Sefydliadol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau'r Cydbwyllgor Archwilio ar sut y lliniarir bregusrwydd a risg o doriadau trydan yn y dyfodol.	Cyfarfod mis Gorffennaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Ar agenda'r sesiwn gaeedig. Gweithrediad a argymhellwyd wedi cau.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
01/04/2022	3	Diweddariad Sefydliadol – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i nodi swyddog a allai frifio'r Cydbwyllgor Archwilio'n llawn ar faterion sy'n cymell cynnydd mewn galw a pha risgiau tymor hir mae hyn yn ei achosi.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/05/2022 – Gwnawn drafod cyn y cyfarfod anffurfiol y cyfrifon neu o fewn eitem agenda'r FMS. PGC/swyddog i fynychu. 29/6/22 – Pennaeth GPLI yn barod i ddo i sesiwn gaeddig mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfarwyddyd. Awgrymu cau'r gweithrediad.
01/04/2022	4	Diweddariad Sefydliadol – Prif Swyddog Cyllid i gynnwys diweddariad cynaliadwyedd ar y rhaglen waith yn y dyfodol.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Prif Swyddog Cyllid	05/04/2022 – Trafodwyd gyda'r Cadeirydd. Awgrymu cau'r gweithrediad.
01/04/2022	5	Diweddariad Sefydliadol – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gyflwyno gweithio ystwyth a sut mae'r gwaith hwn wedi symud ymlaen.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	Wedi'i ychwanegu i'r rhaglen waith. Awgrymu cau'r gweithrediad.
01/04/2022	6	Diweddariad HMICFRS – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ofyn i Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol i roi eglurhad pellach ynghylch lle adroddir am adolygiad Bwrdd Craffu'r Heddlu.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	19/05/22 – Craffir argymhellion AHEM yn y Bwrdd Cynllunio Strategol a Dysgu Sefydliadol y mae Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn ei gadeirio. Mae arweinwyr o feysydd busnes perthnasol yn bresennol. Mae'r bwrdd hwn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad Llywodraethu sy'n cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan Sian Jones. Mae cymysgedd o argymhellion yn codi allan o arolygon heddluoedd eraill/thematig ac argymhellion yn codi allan o arolygon penodol HGC. Mae adroddiad prif bwyntiau yn mynd i gyfarfod cyflawniad yr heddlu a gadeirir gan y DBG. Awgrymu cau'r gweithrediad.
01/04/2022	9	Rhaglen Waith 2022/23 – Y Prif Swyddog Cyllid i rannu'r rhaglen waith ddiweddaraf/ddiwygiedig gydag aelodau'r Cydbwyllgor.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	05/04/2022 – Pâratowyd a rhannwyd gyda'r Cadeirydd. Awgrymu cau'r gweithrediad.
	152	Adolygiad Blynyddol / Adroddiad Blynyddol y CA (drafft) – Aelodau a Swyddogion i roi unrhyw adborth i'r Cydbwyllgor Archwilio cyn cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio.	CYN GYNTED A PHOSIBL	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	20/06/2021 – Cyflwynodd y CCA adborth ar gyfer y ddau adroddiad. 04/08/2021 – Gan nad oes cynllun gweithredu ynghylch gwerthusiad y CA – mae'r gweithrediad i barhau ar agor. 06/10/2021 – Mae'r CCA wedi creu cynllun gweithredu drafft a gaiff ei gylchredeg i'r PSC a CX am sylwadau.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					<p>18/11/2021 – Mae'r cynllun gweithredu drafft wedi'i anfon at y PSC a'r PW a bydd yn cael ei anfon ymlaen at Gadeirydd y Cydbwyllgor Archwilio sef Rachel Barber.</p> <p>08/12/2021 Disgwyl hyd nes bod adolygiad y Cydbwyllgor Archwilio wedi bod.</p> <p>01/04/2022 – Ar yr agenda.</p> <p>28/07/2022 – Argymhellion i'w rhannu gydag aelodau'r CA o fewn pythefnos.</p> <p>21/09/2022 – Adborth pellach wedi'i dderbyn gan aelodau'r CA ar 15/08/22. Adborth wedi'i ystyried a'i ymgorffori i'r cynllun / rhaglen waith ddiwygiedig a'i gylchredeg eto er mwyn i gadeirydd y CA ei gadarnhau.</p> <p>10/10/2022 – I'w drafod yn fanwl mewn cyfarfod sy'n dilyn prif gyfarfod y Cydbwyllgor heddiw. Gweithrediad wedi cau.</p>
01/04/2022	1	Diweddariad Sefydliadol – Y Prif Swyddog Gweithredol i gylchredeg y Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu i aelodau tu allan i'r cyfarfod.	Cyn y cyfarfod nesaf	Prif Swyddog Gweithredol / Prif Swyddog Cyllid	<p>05/05/2022 – Wedi cadw'r strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu i Google Drive ac aelodau'r CA wedi'u hysbysu. 20/05/2022 – Wedi'i ychwanegu i raglen waith y dyfodol</p> <p>28/07/2022 – Mae angen ychwanegu hwn at raglen waith y dyfodol.</p> <p>10/10/2022 – Ar yr agenda heddiw. Gweithrediad wedi cau..</p>
01/04/2022	7	Archwilio Mewnol – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried awgrymiadau ac ystyried wrth ddatblygu'r Memorandwm.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>22/06/2022 – E-bostiodd TIAA gyda chais am y Memorandwm dros dro am rannu ymlaen gydag arweinydd Digidol y CA.</p> <p>28/07/2022 – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i fynd ar ôl hyn eto gan nad yw wedi'i dderbyn eto.</p> <p>21/09/2022 – Mae sesiwn frifio at wraidd y mater ar y strategaeth Gorfforaethol ar agenda mis Hydref. 12/11/21 – Mae strategaeth yr Heddlu wedi'i rhannu gyda aelodau'r CA cyn y cyfarfod.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
01/04/2022	8	Diweddariad Risgiau – Y Prif Swyddog Cyllid i ystyried trefnu Adroddiad at Wraidd ynghylch y prosesau o ran risg i'r Rhaglen Waith.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	<p>Mae'r CCA a'r PSG wedi bod yn trafod y gweithrediad hwn ac maent yn cysylltu gyda Phennaeth Cudd-wybodaeth Busnes..</p> <p>21/09/2022 – Sesiwn ymroddedig Rheoli Risg wedi'i ymgorffori i'r rhaglen waith ddiweddaraf.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
01/04/2022	10	Strategaeth Gyfalaf – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau a'r Prif Swyddog Cyllid i amlygu cwestiynau a godwyd gan aelodau gyda'r Comisiynydd a defnyddio cofnodion y cyfarfod fel sail ar gyfer y drafodaeth hon.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Prif Swyddog Cyllid	05/04/2022 – Rhannwyd y cofnodion drafft gyda'r CHTh er mwyn cefnogi'r penderfyniad. 28/07/2022 – Trafodwyd yn rheolaidd yn fforymau'r Prif Gwnstabl a'i gynnwys yn y SEB ddoe. Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i roi adborth i'r CA. 21/09/2022 – CCA i ymgorffori sylwadau ar brif faterion y CA i adroddiadau Cyllid ac Adnoddau Strategol SMB a SEB. Awgrymu cau'r gweithrediad.
01/04/2022	11	Diweddariad Llywodraethu – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ystyried a oes angen cryfhau gweithio mewn partneriaeth o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a meincnodi o ran dogfen o ran heddluoedd eraill.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	22/06/2022 – Cynnwys cydweithrediad Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i adolygu. Fersiwn olaf y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i ymgorffori'r diweddaraf o ran adolygiadau Cydweithrediad Cymru Gyfan ac Arfordir y Gorllewin. 28/07/2022 – Yn dilyn Sesiwn Friffio Dechnegol, mae'r holl eitemau wedi'u rhestru a'u cofnodi gydag unigolion i symud ymlaen. Angen newid yn y Datganiad Cyfrifon. Cyfredol. 21/09/2022 – Ystyried sylwebaeth ac ychwanegu sylwadau ychwanegol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Awgrymu Cau Gweithrediad.
01/04/2022	12	Diweddariad Llywodraethu – Y Prif Swyddog Cyllid i ystyried Adroddiad at Wraidd y Mater ar y Strategaeth Gyfathrebu yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	PSC a'r CCA yn trafod. 28/07/2022 – trafodir yng nghyfarfod y CA yn y dyfodol. 21/09/2022 – Yn cael ei gynnwys yn agenda mis Hydref y CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
01/04/2022	13	Archwilio Cymru – cynllun archwilio – Archwilio Cymru i benderfynu pa mor aml y mae rolau Rheolwyr Archwilio yn cael eu cylchdroi ac adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn cyfarfod mis Gorffennaf	Archwilio Cymru	Dywedodd Archwilio Cymru mai'r uchafswm tymor ydy 7 mlynedd ond na fyddent yn cylchdroi'r holl staff ar yr un pryd. Bydd staff yn parhau fel y mae am y dyfodol agos. Archwilio Cymru i gyflwyno Polisi Cylchdroi i'r cyfarfod CA ym mis Hydref. Gweithrediad wedi cau.
28/07/2022	1	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i nodi'r rheswm mae archwiliadau wedi'u gohirio o fewn y ddogfen.	Ar unwaith	Archwilio Mewnol	20/09/22 – Manylwyd y wybodaeth hon yn SICA Mawrth 2022 gan fod archwiliadau a gyfeirir atynt yn berthnasol i gynllun archwilio 2021/2022. Mae'r CCA wedi diweddarau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gyda'r cynnwys yn cyfeirio'n benodol at yr archwiliadau gohiriedig a gytunwyd yn y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
					Yn fwy penodol, cynhwyswyd y cyfeiriad at yr archwiliadau gohiriedig fel rhan o adolygiad effeithiolrwydd y Datganiad ym mharagraff 4.6 "gohiriwyd archwiliad Strategaeth Rheoli'r Ffilyd tan 2022-23 ar gais rheolwyr. Gohiriwyd adolygiadau Credydwy'r a Chyflogres Cydweithredol i Chwarter 2 2022-23." Adlewyrchir hyn yn awr yn fersiynau cyhoeddedig y Datganiad o'r Datganiad Cyfrifon. Awgrymu cau'r gweithrediad..
28/07/2022	2	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i rannu sut y dewisir archwiliadau cydweithredol gyda'r Cydbwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau fod pob un yn addas ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.	Cyn cyfarfod mis Hydref	Archwilio Mewnol	01/08/2022 – Dewiswyd y risgiau mewn trafodaeth gydag Arweinydd Risg a Pharhad Busnes Heddlu Gogledd Cymru. Lluniwyd rhestr fer a dewiswyd y ddau risg gan y gwelwyd y rhain yn gyffredin gyda'r Heddluoedd eraill. Fel rhan o'r adolygiad, mae'r archwilydd hefyd yn edrych ar y broses o'r dechrau i'r diwedd, nid ond y risgiau tueddol. Felly os oedd unrhyw faterion i'w nodi, er enghraifft yn y ffordd y cofnodir y risgiau eraill, byddent yn cael eu nodi. Mae'r archwilydd hefyd wedi edrych yn ôl ar adolygiad llynedd, a'r flwyddyn cynt. Mae wedi olrhain y daith ers i'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes presennol ymuno. 10/10/2022 – Gweithrediad wedi cau.
28/07/2022	3	Archwilio Mewnol – Archwilio Mewnol i rannu Memoranda ar yr archwiliad diogelwch seiber gyda'r Cydbwyllgor Archwilio.	Cyn gynted â phosibl	Archwilio Mewnol	07/09/2022 – Memorandwm Diogelwch Seiber wedi'i dderbyn a'i rannu gydag Arweinydd TGCh y CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	4	Archwiliad Mewnol – Archwiliad Asedau Sefydlog TGCh Y Prif Swyddog Cyllid i gynnwys Adolygiad Asedau ar raglen waith y Cydbwyllgor yn y dyfodol (6-12 mis)	Ar unwaith	Prif Swyddog Cyllid	21/09/2022 – Mae Asedau Sefydlog TGCh yn cael eu cynnwys yn rhaglen waith TIAA o ran Archwiliad Dilynol ar yr archwiliad cychwynnol a ymgwymerwyd ac archwiliad Cydweithredol ymroddedig a gynhwyswyd ar gyfer 2022/23. Dylai'r canfyddiadau o'r archwiliadau hyn awgrymu a oes angen ymgorffori pellach i'r rhaglen waith. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	5	Rhaglen Waith – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i ddiweddarau blaenoriaethau'r pynciau At Wraidd y Mater a chylchredeg i aelodau am drafodaeth a sylwadau.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	16/09/2022 – Adolygodd CCA y rhaglen waith ac mae wedi rhannu'r papur gwaith a'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyfarfod mis Hydref gyda Chadeirydd y CA ac arweinydd risg y CA. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
28/07/2022	6	Rhaglen Waith – Cadeirydd i drafod gyda swyddogion mewn cyfarfod all-lein a ydy'r lefel o ddadlau/trafodaeth yn erbyn pynciau at wraidd y mater yn gywir er mwyn cyflawni Cylch Gorchwyl y Cydbwyllgor.	Cyn cyfarfod nesaf y	Cadeirydd Cydbwyllgor Archwilio y	10/10/2022 – Yn digwydd cyn prif gyfarfod y Cydbwyllgor heddiw. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	7	Datganiad Cyfrifon – Pennaeth Cyllid i roi diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar gynnydd wrth greu'r Datganiad Cyfrifon cyn cyfarfod mis Hydref.	Cyn cyfarfod nesaf y	Pennaeth Cyllid	21/09/2022 – Cylchredodd y CCA y cofnod gweithrediadau o'r cyfarfod technegol i brif aelod y CA a chadeirydd y CA yn amlinellu sut roedd gweithrediadau o'r sesiwn frifffio dechnegol wedi'u hymgorffori i'r cyfrifon terfynol. Pennaeth Cyllid i ychwanegu sylwadau pellach yn ôl yr angen. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	8	Rhaglen Gyfalaf – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Newid i sicrhau fod Rheolwyr Prosiect yn dod i gyfarfodydd yn y dyfodol os codir pryderon o ran prosiectau unigol.	Cyfredol	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau / Pennaeth Newid	21/09/2022 – Mae'r CCA wedi amlinellu'r angen i'r Pennaeth Newid, Pennaeth Technoleg a Phennaeth Cyfleusterau a'r Fflyddod. Y disgwyl ydy fod yr angen i ddod yn deillio o adolygiad y CA o'r strategaeth Gyfalaf a diweddariadau dilynol. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	9	Rheoli'r Trysorlys – Cyflawniad – Pennaeth Cyllid i rannu canllawiau Arlingclose gyda'r aelod	Ar unwaith	Pennaeth Cyllid	06/09/2022 – Pennaeth Cyllid wedi rhannu gwybodaeth gyda'r aelod. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	10	Ymholiadau Archwilio Cymru – Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i rannu adroddiad gyda'r Cydbwyllgor ynghylch pam na ddilynwyd y broses gaffael.	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	28/07/2022 – Cytunodd CCA / Prif Weithredwr i bapur gael ei rannu gydag aelodau'r CA. Awgrymu Cau Gweithrediad.
28/07/2022	11	Adroddiad Blynyddol y CA a Gwerthusiad – Cadeirydd i rannu'r adroddiad gwerthuso a dderbyniwyd gan swyddogion er gwybodaeth a chadarnhau o fewn y bythefnos nesaf.	Ar unwaith	Cadeirydd Cydbwyllgor Archwilio y	15/09/2022 – Rhoddodd y CA sylwadau ar y cynllun gweithredu. 10/10/2022 – I'w drafod o fewn cyfarfod sy'n dilyn prif gyfarfod y Cydbwyllgor heddiw. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	12	Diweddariad Llywodraethu – Mae Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol am rannu'r adolygiad o'r strwythur llywodraethu gydag aelodau'r Cydbwyllgor unwaith y ceir cymeradwyaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth.	Unwaith caiff ei gymeradwyo gan yr SLT	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	12/09/22 – Adolygiad Blynyddol o Drefniadau Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru wedi'i rannu gydag aelodau'r CA (Google Drive). Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
28/07/2022	13	Fframwaith Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd yr Heddlu – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drafod yr eirfa a ddefnyddir wrth gau/ailagor risgiau gyda'r Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes gan fod yr iaith bresennol yn peri dryswch.	Cyn y cyfarfod nesaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	21/09/22 – Trafodwyd y defnydd o derminoleg o gau / ailagor risgiau gydag arweinwyr Risg mewn cyfarfod grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu misol. Mae'r ymdriniaeth yn cael ei hystyried ymhellach gyda golwg ar drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf a phigo i fyny yn y Sesiwn Rheoli Risgiau ymroddedig. Awgrymu cau'r gweithrediad.
28/07/2022	14	Fframwaith Rheoli Risgiau a Mapio Sicrwydd yr Heddlu – Y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i drefnu sesiwn ar gyfer aelodau ar sut y rheolir risg o fewn Heddlu Gogledd Cymru.	Cyn gynted â phosibl	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	21/09/2022 – Wedi ymgorffori i'r rhaglen waith a sesiwn ymroddedig yn cael ei threfnu. 10/10/2022 – Sesiwn wedi'i threfnu ar gyfer mis Tachwedd. Gweithrediad wedi cau.
10/10/2022	1	Cofnod Gweithrediadau: Cau Eitem 1 o 28/07/22 a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau i hysbysu sut y dylid cynnwys sut y cafodd y trywydd archwilio a oedd yn mynegi sut y caewyd y gweithrediad o fewn y diweddariad.	Cyn y cyfarfod nesaf	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/22 – Naratif pellach ar y gweithrediad perthnasol er mwyn dangos camau a gymerwyd cyn cau. Awgrymu Cau Gweithrediad.
10/10/2022	2	Diweddariad Sefydliadol – Rhoi trosolwg canlyniadau ynghylch gwario cyllid grant Strydoedd Diogelach, gan gynnwys y broses lywodraethu, er sylw aelodau'r Cydbwyllgor.	Cyn y cyfarfod nesaf	Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol	Rhannwyd trosolwg o lywodraethu arian grant Strydoedd Diogelach gydag aelodau o'r CA. Gweithrediad wedi cau.
10/10/2022	3	Diweddariad Sefydliadol – Ystyried unrhyw ddysgu o wario'r grant Strydoedd Diogelach a allai fod yn berthnasol i gronfeydd ehangach yr heddlu.	Cyn y cyfarfod nesaf	Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol / Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/22 – Gwnaeth y CCA, Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid gyfarfod i drafod. Y prif bwyntiau fyddai: <ul style="list-style-type: none"> • Mae natur amser cyllid strydoedd diogelach yn ffactor. • Mae anhawster staffio a'r gadwyn gyflenwi wedi dylanwadu llai ar wariant o'i gymharu â chyllidebau'r heddlu. • Mae pwyso a mesur Llywodraeth a'r broses gyda galluogi cyflawni yn ystyriaeth i wariant strydoedd diogelach a'r heddlu. Awgrymu cau'r gweithrediad.

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
10/10/2022	4	Diweddariad Sefydliadol – Rhoi dadansoddiad i aelodau'r Cydbwyllgor ar yr effaith bosibl gall yr argyfwng costau byw ei gael ar yr heddlu.	Cyn cyfarfod nesaf	y PGC/DD Alex Goss drwy'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>18/11/22 – Mae 3 phwynt allweddol yn y maes hwn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1). Yr effaith ar alw, trosedd a niwed. Mae'r agwedd hon yn parhau i gael ei monitro a'i hystyried mewn nifer o feysydd penodol fel trosedd caffael gan gynnwys lladrata o siopa, trosedd casineb ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. 2). Yr effaith debygol ar staff. Mae arolwg yr heddlu wedi bod ac mae'r argyfwng yn peri pryder i'n pobl gyda'r grwp yn ystyried opsiynau ynghylch hyn ar hyn o bryd. 3). Yr effaith ar gyllidebau'r heddlu. Mae'r pwysau chwyddiant eithriadol wedi creu bwlch ariannu i'r heddlu yn y dyfodol sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd fel rhan o'r broses cynllunio sefydliadol. <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
10/10/2022	5	Archwilio Mewnol – Adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor Archwilio ar y rhwystrau o ran recriwtio'r rôl gweinyddwr systemau, ac a ydy'r risg wedi'i chodi yn y maes hwn heb yr adnoddau ymroddedig.	Cyn cyfarfod nesaf	y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	<p>18/11/22 – Methwyd â recriwtio'r rôl hon oherwydd y radd gwerthuso swydd terfynol, natur 12 mis dros dro'r rôl a diffyg diddordeb yn fewnol ac yn allanol.</p> <p>Wedi methu penodi ar ddau achlysur, penderfynwyd creu cynllun gweithgarwch Cyfnod 2 i ddechrau wedi gosod NEP gyda Rheolwr Prosiect yr NEP yn arwain er mwyn cwblhau gweithrediadau unwaith yr oedd galw o'r cyfnod cychwynnol wedi rhyddhau gallu.</p> <p>Y prif effaith ydy oedi ac ymestyn llinell amser y prosiect gyda'r Rheolwr Prosiect gan gysylltu gydag arbenigwyr pwnc er mwyn asesu'r gofynion 'Mewn Oes' ac adolygu a oes angen swydd benodol yn y dyfodol er mwyn gweinyddu'r system.</p> <p>8/12/2022 – Rolau anodd eu llenwi ar y gofrestr risg ac eitem at wraidd y mater ar agenda'r CA ym mis Mawrth.</p> <p>Awgrymu cau'r gweithrediad.</p>
10/10/2022	6	Diweddariad Risg – Rhoi diweddariad ar sut mae'r heddlu'n rheoli risg rhif 78 – System Weithredu Microsoft Windows 10 heb ei chefnogi	Ar unwaith	James Sutton	<p>28/10/22 – Bydd y Pennaeth Technoleg yn mynd i'r Cydbwyllgor ar 08/12/22 er mwyn rhoi cyfarwyddyd ar Risg 78 – System Weithredu Microsoft Windows 10 heb ei chefnogi. Gweithrediad wedi cau.</p>

DYDDIAD CYFARFOD	RHIF COFNOD	DISGRIFIAD GWEITHREDIAD	ANGEN ERBYN (DYDDIAD)	SAWL SY'N GYFRIFOL	DIWEDDARIAD
10/10/2022	7	Rhaglen Waith 2022/23 – Newid terminoleg "Adroddiad at wraidd y mater briffio" i "friffio'r CA" o fewn y Rhaglen Waith	Ar unwaith	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau	18/11/22 – Diweddarwyd y derminoleg yn y rhaglen waith ddiweddaraf. Awgrymu cau'r gweithrediad.
10/10/2022	8	ISA 260 a llofnodi cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 – Rhannu canlyniadau'r adolygiadau wedi'r archwiliad o'r Archwiliad Cyfrifon gydag aelodau'r Cydbwyllgor er mwyn eu galluogi nhw gymryd rhan yn y cylch adborth.	Unwaith mae ar gael	Pennaeth Cyllid	18/11/22 – Pennaeth Cyllid wedi rhoi diweddariad yn y Cydbwyllgor fod y cyfarfod gydag Archwilio Cymru yn dal i fynd ymlaen. Ar yr agenda. Awgrymu cau'r gweithrediad.


Allwedd Talfyriadau	
PG	Prif Gwnstabl
PSG	Prif Swyddog Gweithredol (SCHTh)
PSC	Prif Swyddog Cyllid (SCHTh)
CCA	Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau (HGC)
HMICFRS	Arolygaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) Ei Mawrhydi
CA	Cydbwyllgor Archwilio
HGC	Heddlu Gogledd Cymru
SCHTH	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
CP	Cynorthwydd Personol i'r PSG a'r PSC
CHTH	Comisiynydd Heddlu a Throsedd
ASP	Adran Safonau Proffesiynol (HGC)
TIAA	Archwilio Mewnol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2023

Teitl:	Diweddariad Sefydliadol y SCHTh
Awdur:	Stephen Hughes
Diben yr adroddiad:	
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Atal achosion o gamymddwyn rhywiol• Y Ddeddf Hela – wedi cyhoeddi adroddiad<ul style="list-style-type: none">• Gofyniad Plismona Strategol• Cymorthfeydd cyhoeddus
Argymhellion:	Dim
Effaith cofrestr risgiau:	Dim
Goblygiadau sicrwydd:	Dim
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



Cydbwyllgor Archwilio 28 Mawrth 2023

Diweddariad Sefydliadol y SCHTh

Diweddariadau

Cynhaliwyd cyfarfod blaenorol y Cydbwyllgor Archwilio (CA) ar 8 Rhagfyr 2022. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad i'r CA ar faterion SCHTh o bwys ers hynny.

Atal achosion o gamymddwyn rhywiol

Yn dilyn euogfarnu a dedfrydu swyddog o'r Heddlu Metropolitan yn ddiweddar am lu o droseddau yn cynnwys treisio, trais yn erbyn merched ac ymddygiad gorfodol, gwnaeth Heddlu Gogledd Cymru baratoi adroddiad, o dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman, ar gais Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae plismona yn genedlaethol wedi bod o dan chwyddwydr sylweddol yn dilyn achosion amlwg iawn lle mae uniondeb y rhai hynny sy'n gwasanaethu yn heddluoedd y DU wedi cael ei gwestiynu. Disgwylir safonau uchel gan swyddogion heddlu ac mae'n angenrheidiol eu bod yn glynu at yr un safonau personol maent yn eu gorfodi. Mae'r angen hwn am dryloywder ac atebolrwydd wedi arwain at yr adroddiad yn cael ei gomisiynu a'i gyhoeddi.

Mae'r adroddiad yn edrych ar oblygiadau achos David Carrick yng nghyd-destun lleol Heddlu Gogledd Cymru, mynychter achosion o gasineb at ferched yn yr Heddlu, y nifer o achosion o dan ymchwiliad a'r mesurau mewn lle. Mae hyn er mwyn gwarchod y cyhoedd a sicrhau fetio swyddogion yn gywir.

Mae'r adroddiad yn nodi fod 27 o ymchwiliadau ymddygiad ar hyn o bryd yn mynd ymlaen o ran 24 o unigolion o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r nifer hyn ymysg y 1662 o Swyddogion Heddlu, 186 o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu, 1201 o Staff Sifil a 100 o Swyddogion Gwirfoddol yn yr Heddlu i gyd Mae 13 achos yn berthnasol i drais yn erbyn merched a genethod, gan gynnwys camymddwyn rhywiol a cham-drin domestig gan unigolion o fewn yr heddlu.

Mae'r adroddiad hefyd yn ymchwilio mesurau i ymdrin ag unrhyw adroddiadau o gamymddwyn gan swyddogion a diogelu'r cyhoedd. Er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag adroddiadau o ymddygiad amhriodol yn briodol o fewn y sefydliad a bod dioddefwyr yn cael cymorth, mae'r Heddlu wedi datblygu Rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol (ILP) pedwar diwrnod gydag Ysgol Fusnes Prifysgol Durham. Mae'n cael ei gyflawni i holl oruchwylwyr llinell gyntaf ac ail linell ac mae'n defnyddio ymdriniaeth tystiolaeth er mwyn canolbwyntio ar bwysigrwydd arweinyddiaeth gynhwysol a chynorthwyol. Mae hon yn ffactor hanfodol wrth i swyddogion a staff gael yr hyder i hysbysu am a herio ymddygiad amhriodol gan gydweithwyr a goruchwylwyr.

SWYDDOGOL

Yn hanfodol hefyd i gynnal safonau'r Heddlu ydy'r Adran Safonau Proffesiynol (ASP). Mae pob aelod o staff o fewn ASP yn mynd drwy lefelau fetio uwch na'r disgwyl yn arferol. Maent hefyd â chymwysterau addas i ymgymryd â'r rôl. Er mwyn craffu'n briodol, mae Panel Craffu ASP chwarterol sy'n diweddar, a gadeirir gan Brif Weithredwr SCHTh, sy'n diweddar Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Yn fuan ar ôl euogfarn Carrick, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref bod pob heddlu i wirio staff o ran cronfeydd data cenedlaethol er mwyn nodi os oes rhywun wedi 'llithro drwy'r rhwyd'. Mae'n bwysig nodi y bydd y gwiriadau hynny hefyd yn cynnwys holl staff SCHTh.

Mae Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi'u briffio'n helaeth ar y materion hyn. Efallai fod aelodau'r CA yn cofio fod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi penodi hyrwyddwyr sy'n aelodau ar gyfer bob un o flaenoriaethau strategol y CHTh. Yn dilyn ein hargymhelliad, mae'r Panel wedi cytuno penodi hyrwyddwr sy'n aelod ar gyfer Safonau Proffesiynol. Gwnaiff y Prif Weithredwr gyfarfod â nhw yn rheolaidd er mwyn eu hysbysu am ein craffu parhaus yn y maes hwn.

Ceir yr adroddiad yn llawn [yma](#).

Plismona'r Ddeddf Hela yng Ngogledd Cymru – cyhoeddi adolygiad

12 Ar 12 Ionawr 2023, cyhoeddwyd yr adroddiad yn dilyn adolygiad annibynnol i blismona'r Ddeddf Hela yng Ngogledd Cymru. Comisiynwyd yr adolygiad ym mis Mai 2022 gan y CHTh. Tra mae'r adolygiad yn amlygu fod gweithrediadau Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn arfer da, mae hefyd yn cynnwys awgrymiadau i'r Heddlu ar sut i blismona hela ar draws y rhanbarth.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan aelodau Cyfiawnder – Sefydliad Ymchwil Cynhwysiant Cymdeithasol ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, a wnaeth ofyn am farn y rhai o blaid hela a rhai sy'n gwrthwynebu hela, yr heddlu ac eraill sy'n ymwneud â'r mater.

Mae'r adolygiad yn edrych ar heriau gorfodi sydd ynghlwm â Deddf Hela 2004 ar gyfer yr heddlu; arfer da yng nghyswllt plismona'r gwaharddiad ar hela; pa mor dda mae Heddlu Gogledd Cymru yn cyflawni o ran hela llwynogod yn anghyfreithlon a digwyddiadau yn ymwneud â hela sy'n dod at eu sylw; pa mor dda mae'r Heddlu yn cydymffurfio â'r Safonau Cenedlaethol ar gofnodi, ymateb, ymchwilio ac erlyn digwyddiadau yn ymwneud â hela.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cytuno fod pob argymhelliad a chynllun gweithredu wedi'i roi mewn lle a fydd yn cael ei fonitro drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Ceir manylion pellach a'r adroddiad llawn [yma](#)

Newidiadau i'r Gofyniad Plismona Strategol

Y Gofyniad Plismona Strategol ydy'r ddogfen lle mae'r Ysgrifennydd Cartref yn cyflawni ei dyletswydd statudol i amlinellu'r hy ydy'r bygythiadau cenedlaethol ar adeg cyhoeddi'r

SWYDDOGOL

ddogfen, a'r gallu plismona cenedlaethol priodol angenrheidiol er mwyn atal y bygythiadau hynny. Mae'r Gofyniad diwygiedig hefyd yn cynnwys canllawiau o ran canlyniadau, gallu, safonau cenedlaethol, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth.

Gofyniad Plismona Strategol 2023

Mae'r Gofyniad diwygiedig hwn yn cynnwys saith bygythiad cenedlaethol cyffredinol, gan ail-gadarnhau dilysrwydd chwe bygythiad cenedlaethol o'r fersiwn flaenorol. Y rhain ydy terfysgaeth, troseddau difrifol a threfnedig, digwyddiadau seiber cenedlaethol, cam-drin plant yn rhywiol, trefn gyhoeddus, ac argyfyngau sifil, ac yn cynnwys bygythiadau newydd i drais yn erbyn merched a genethod (VAWG).

Mae newidiadau eraill yn cynnwys:

- disgrifiadau manylach o sut y dylid ymdrin â bygythiadau gan heddluoedd
- trefniadau llywodraethu a sicrwydd newydd
- adran troseddau difrifol a threfnedig well, er mwyn sicrhau amlygrwydd troseddau fel twyll a throseddau mewnfudo trefnedig

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae adran llywodraethu ac atebolrwydd y Gofyniad yn amlinellu sut y gosodir y Gofyniad yn narlun plismona Cymru a Lloegr er mwyn sicrhau fod ganddo 'le ystyrion'.

Dywed y Gofyniad bod:

Gofyn i CHTH ystyried y Gofyniad hwn wrth roi neu amrywio eu cynlluniau heddlu a throstedd. Rhaid iddynt adolygu'r Cynllun Heddlu a Throstedd o hyd gan ystyried unrhyw newidiadau i'r Gofyniad gan yr Ysgrifennydd Cartref. Rhaid i Brif Gwnstabiliaid ystyried y Cynllun Heddlu a Throstedd a'r Gofyniad wrth arfer eu swyddogaethau. Mae Comisiynwyr yn gyfrifol am eu dwyn yn atebol am wneud...Y disgwyl ydy y dylai'r CHTH a'r Prif Gwnstabiliaid ddilyn y Gofyniad hyd nes eu bod yn fodlono fod, o dan yr amgylchiadau, bod rhesymau da i beidio. [Geiriau wedi'u hepgor]

Mae'r Gofyniad yn amlinellu dau fecanwaith sicrwydd er mwyn cyflawni hyn. Yn gyntaf, bydd Comisiynwyr yn rhoi datganiad sicrwydd blynyddol o fewn eu hadroddiadau blynyddol ar sut maent wedi ystyried y Gofyniad a sut mae wedi dylanwadu gosod cyfeiriadau ac amcanion strategol ar gyfer eu Heddlu. Yn ail, bydd y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throstedd yn rhoi crynodeb blynyddol o'r datganiadau sicrwydd i'r Gweinidog Plismona.

Cymorthfeydd cyngor misol

SWYDDOGOL

Yn ddiweddar, lansiodd y CHTH gymhorthfa cyngor misol newydd i drigolion. Bydd y fenter yn galluogi pobl leol i drafod plismona yn eu cymunedau ac i godi gofidion a sylwadau sydd ganddynt gyda'r Comisiynydd.

Bydd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal mewn trefi a phentrefi ar draws ardal Gogledd Cymru, yn fawr a bach, gwledig a threfol ac ar draws y chwe sir. Cynhaliwyd y gymhorthfa gyntaf yn y Bala gyda lleoliadau eraill wedi'u cadarnhau yn cynnwys Rhuthun, Pwllheli, Bangor a'r Bermo. Cyhoeddir lleoliadau eraill yn 2023 maes o law.

Awdur yr Adroddiad:	Stephen Hughes, Prif Weithredwr
----------------------------	--

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 Mawrth 2023

Diweddariad Sefydliadol

Adroddiad gan Bennaeth Cyllid ac Adnoddau, Heddlu Gogledd Cymru

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi Diweddariad Sefydliadol lefel uchel i Heddlu Gogledd Cymru. Amlygir y prif faterion a digwyddiadau sy'n effeithio'r sefydliad am y cyfnod o 17.11.22 tan 03.03.23.

Dadansoddir y materion a'r digwyddiadau rhwng y pedwar categori Cyllid; Pobl, Dysgu ac Arloesedd; Gweithredol a Chyhoeddus / Cymunedol.

2. Cyllid

- 2.1 Mae rhagolygon refeniw Ch3 ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol yn parhau i ddarogan tanwariant o £6.2m. Tra mae pwysau costau chwyddiant wedi effeithio ar nifer o eitemau llinell y gyllideb, mae cymhellwyr allanol y tanwariant yn parhau fel yr adroddwyd mewn cyfnodau cynt gyda gweithredu dyraniadau Uplift a thwf arall y ffactorau mwyaf sylweddol (disgwyllir i'r ddau wasgaru ym mlwyddyn ariannol 23-24).
- 2.2 Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol hefyd yn dangos tanwariant gydag alldro tybiedig o £8.8m o ran cyllideb o £11.2m. Mae'r tanwariant yn cael eu deall yn dda ac yn cael eu rheoli fel sy'n briodol.
- 2.3 Cefnogwyd cynigion cyllideb blwyddyn ariannol 23-24 ar gyfer cyllideb gyfan o £189.0m (cynnydd o 3.7% ar y flwyddyn bresennol ac ystyried y tanwariant a gyfeiriwyd ato uchod) yn unfrydol gan y Panel Heddlu a Throsedd ar 30 Ionawr 2023 yn seiliedig ar gyflawni sefyllfa gytbwys drwy:
 - Ymgorffori'r pwysau costau chwyddiant eithriadol o 7.1% / £13m i'r cynlluniau ariannol.
 - Cyfyngu unrhyw wariant ychwanegol i elfennau nas gellir eu hosgoi / hanfodol o £1.2m.
 - Nodi £3.8m o arbedion ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 o ardaloedd amrywiol o'r heddlu.
 - Cynnydd o 0.35% yng ngrant sylfaenol y Llywodraeth a chyfanswm grantiau'r Llywodraeth o 1.9%.
 - Cynnydd yn y braesept o 6.8% i £100.2m yn seiliedig ar gynnydd o 5.14% yn y dreth gyngor (sy'n cyfateb i £333.09 y flwyddyn, cynnydd o £16.29 y flwyddyn, neu 31c yr wythnos ar gyfer eiddo band D) a chynnydd sylfaenol yn y sylfaen dreth.
- 2.4 Bydd ystyried pwysau chwyddiant y rhagolwg ariannol; ansicrwydd ynghylch cyflog; diwedd dyrannu swyddogion Uplift ac ansicrwydd pellach o ran setliadau ariannu yn y dyfodol i gyd yn parhau i fod yn ffactorau hanfodol i'r heddlu wrth iddo geisio sicrhau fod llwyfan ariannol cynaliadwy wrth symud ymlaen.

3. Pobl, Dysgu ac Arloesedd

- 3.1 Gyda phwyslais ar yr agenda Ymddiriedaeth, Hyder a Chyfreithlondeb, mae'r Prif Gwnstabl wedi comisiynu archwiliad diwylliannol annibynnol o'r heddlu er mwyn deall

ei ddiwylliant yn well a nodi unrhyw feysydd allweddol i'w gwella. Dechreuodd yr adolygiad ym mis Chwefror 2023 a bydd yn cael ei gynnal mewn sawl cyfnod, gan gynnwys dadansoddiad desg, cyfweiliadau ac arolwg diwylliannol.

- 3.2 Mae'r Prif Gwnstabl hefyd wedi comisiynu gwaith ynghylch siapio cyfeiriad yr heddlu yn y dyfodol gan gynnwys gwaith ynghylch ei werthoedd. Bydd cyfres o weithdai yn digwydd ym mis Mawrth 2023 ar draws adrannau er mwyn cynorthwyo siapio gweledigaeth a dogfennau strategaeth y Prif Gwnstabl.
- 3.3 Mae'r heddlu'n parhau i symud ymlaen gyda recriwtio ei ddyraniad Uplift. Tra mae wedi bod yn hynod heriol, amcangyfrifir y bydd yn bodloni ei darged erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae cynnal Uplift ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 yn rhan o setliad ariannol y Llywodraeth (gyda chyllid penodol wedi'i glustnodi) ac mae hyn wedi'i ystyried wrth sefydlu cynlluniau recriwtio ar gyfer y flwyddyn i ddod.
- 3.4 Mae recriwtio'n ehangach yn parhau'n heriol, yn enwedig o ran y Rhwydwaith Ymchwiliadau Gwrthdrawiadau Fforensig, o ystyried y sgiliau arbenigol angenrheidiol.
- 3.5 Ym mis Ionawr 2023 dechreuodd yr Heddlu gyflwyno rhaglen arweinyddiaeth i holl reolwyr llinell cyntaf ac ail (swyddogion a staff) yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth gynorthwyol gyda seminar bellach ar gyfer uwch arweinwyr ar arweinyddiaeth gynhwysol arfaethedig ar gyfer mis Ebrill 2023.
- 3.6 Cyhoeddwyd Arolwg Cyflog a Morâl y Ffederasiwn ym mis Ionawr 2023. Roedd pwysau a achoswyd gan gynnydd mewn costau byw i'w gweld a byddant yn bwydo i'r Grŵp Aur Costau Byw a gadeirir gan y Prif Uwcharolygydd Goss, ynghyd a themâu eraill a fydd yn cael eu hystyried fel rhan o Raglen Optimeiddio o dan arweiniad y Prif Uwcharolygydd Harrison.
- 3.7 Mae trafodaethau cytundeb terfynol ar y gweill cyn mae'r Heddlu yn trosglwyddo i'r TOM TGCh newydd ym mis Ebrill 2023. Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud gyda recriwtio i'r tîm TGCh mewnol. Tra mae'r Model Gweithredu Targed TGCh yn symud ymlaen, mae blaenoriaethu gofalus adnoddau TGCh yn ystyriaeth allweddol gyda llif gwaith penodol yn gorfod cael ei oedi dros dro gan symud meysydd hanfodol eraill ymlaen.
- 3.8 Mae rhaglenni newid allweddol eraill ar gyfer yr heddlu yn parhau i symud ymlaen gyda'i lwyfan MI ac ap Symudol yn dod ac yn dynesu at gyfnodau peilot, yn y drefn honno.

4. Gweithredol

- 4.1 Cyhoeddwyd adroddiad arolwg PEEL HMICFRS ar gyfer HGC ym mis Ionawr 2023 yn dilyn yr arolwg ym mis Mehefin 2022. Mae'r adroddiad ar gael yn gyhoeddus gyda graddau'r heddlu wedi'u crynhoi isod. Mae'r heddlu bellach yn ystyried symud Meysydd ymlaen ar gyfer gwelliant a nodwyd o fewn yr adroddiad:

Overall summary

Our inspection assessed how good North Wales Police is in nine areas of policing. We make graded judgments in 8 of these 9 as follows:

Outstanding	Good	Adequate	Requires improvement	Inadequate
	Preventing crime	Treatment of the public	Investigating crime	
	Responding to the public	Protecting vulnerable people		
	Developing a positive workplace	Managing offenders		
		Good use of resources		

- 4.2 Ar ben yr uchod, ym mis Chwefror 2023 roedd yr Heddlu yn destun arolwg ar y cyd ynghylch trefniadau gwarchod plant gyda Chyngor Sir Ddinbych a oedd yn cynnwys AHEM ac rydym yn disgwyl yr adroddiad ffurfiol.
- 4.3 Mae Rhaglen Optimeiddio ar gyfer yr heddlu hefyd wedi'i sefydlu, o dan arweiniad y Prif Uwcharolygydd Harrison, er mwyn edrych ar y model plismona yn Heddlu Gogledd Cymru ac ystyried lle y gellir ei ddatblygu er mwyn gwella galw gwasanaeth a rhoi'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd.
- 4.6 Mae'r Prif Uwcharolygydd Goss wedi bod yn arwain ar ymateb yr Heddlu i weithredu diwydiannol ehangach ac elfennau eraill o aflonyddu yn ystod y gaeaf gyda'r cynlluniau wrth gefn yn lleihau unrhyw effaith ar wasanaeth yr heddlu.
- 4.7 Cafodd Hilton Garden Inn Snowdonia yn Nolgarrog ei ddynodi gan y Swyddfa Gartre fel safle i roi llety brys i geiswyr lloches ym mis Tachwedd 2022, tra roedd ceisiadau'n cael eu prosesu. Cydweithredodd yr heddlu'n agos gyda phartneriaid, rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned er mwyn sicrhau fod hyn yn mynd heibio heb broblem, ac mae'r safle bellach wedi'i gau.
- 4.8 Mae monitro cyflawniad ar lefel yr Heddlu a SCHTh yn parhau gyda diweddariadau cyflawniad allweddol gan y Bwrdd Gweithredu Strategol a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2023 yn cynnwys adroddiadau at wraidd y mater i feysydd blaenoriaeth Amlygrwydd ac Ymgysylltu a Byrgleriaeth Breswyl. Mae'r meysydd gyda chynlluniau gwella uniongyrchol yn parhau i symud ymlaen.

5. Cyhoeddus / Cymunedol

- 5.1 Mae ymddiriedaeth a hyder mewn plismona yn genedlaethol wedi'i effeithio ymhellach yn dilyn euogfarnu, a dedfrydu David Carrick yn ddiweddar. Cyhoeddodd y CHTh adroddiad ar 20 Chwefror 2023, sy'n edrych ar oblygiadau'r achos yng nghyd-destun lleol Heddlu Gogledd Cymru, mynychter achosion o gasineb at ferched yn yr Heddlu, y nifer o achosion o dan ymchwiliad a'r mesurau mewn lle er mwyn gwarchod y cyhoedd a sicrhau fetio swyddogion yn gywir. Mae'r adroddiad yn nodi fod 27 o ymchwiliadau ymddygiad ar hyn o bryd yn mynd ymlaen o ran 24 o unigolion o fewn Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r nifer hyn ymysg y 1662 o Swyddogion Heddlu, 186 o Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu, 1201 o Staff Sifil a 100 o Swyddogion Gwirfoddol yn yr Heddlu i gyd Mae 13 achos yn berthnasol i drais yn erbyn merched a genethod, gan gynnwys camymddwyn rhywiol a cham-drin domestig gan unigolion o fewn yr heddlu.
- 5.2 Cyhoeddodd y Prif Weinidog y bydd holl swyddogion heddlu a staff yr heddlu yn mynd drwy wiriadau o ran Cronfa Ddata Genedlaethol (PND) yr Heddlu. Y Prif Gwnstabl

Amanda Blakeman ydy Arweinydd CCPSH cenedlaethol Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, a bydd Heddlu Gogledd Cymru yn un o'r heddluoedd cyntaf i fynd drwy'r gwiriadau hynny. Mae cyrchu yn yr Adran Safonau Proffesiynol wedi'i gryfhau er mwyn sicrhau yr hwylusir hyn.

- 5.3 Mae Heddlu Gogledd Cymru derbyn statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd Lefel 3 yn dilyn dilysu ac adolygu ei statws ac arferion gan heddlu cyfagos.
- 5.4 Mae HGC yn edrych ar recriwtio oddeutu 25 o Lysgenhadon Ifanc 16-24 oedd er mwyn hysbysu a chynorthwyo'r heddlu o ran materion sy'n effeithio pobl ifanc a chael dweud ar blismona yn yr ardal maent yn byw ynddi. Mae ffurflenni cais ar gael ar dudalen Recriwtio gwefan Heddlu Gogledd Cymru.

6. Argymhellion

Aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio i nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau.



Cydbwyllgor Archwilio

Mawrth 2023

Teitl:	Diweddariad HMICFRS																						
Awdur:	Sarah O'Hara																						
Diben yr adroddiad:	Diweddariad yn ymwneud ag arolygon HMICFRS																						
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input checked="" type="checkbox"/> X Gwybodaeth																						
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<p><u>Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL)</u></p> <p>Cyhoeddwyd yr adroddiad PEEL (<i>Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr Heddlu</i>) ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ar ddydd Iau 2nd Chwefror 2023.</p> <p>Ceir manylion pellach a'r adroddiad llawn yma: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/peel-assessments/peel-assessments-2021-22/north-wales/</p> <p>Bu'r adroddiad yn archwilio'r meysydd plismona isod a arweiniodd at y graddio a'r meysydd i wella (AFI) canlynol:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Maes</th> <th>Graddio</th> <th>Nifer feysydd y dylid gwella</th> <th>Maes i'w Wella</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Darparu gwasanaeth i ddioddefwyr trosedd</td> <td>Heb radd</td> <td>-</td> <td>-</td> </tr> <tr> <td>Ymgysylltu a thrin y cyhoedd yn deg a pharchus.</td> <td>Digonol</td> <td>1</td> <td>AFI 1 – Dylai'r heddlu sicrhau, o ran ei ddefnydd o rym, bod holl swyddogion a staff perthnasol yn cofnodi pan ddefnyddir grym a bod goruchwyliaeth effeithiol.</td> </tr> <tr> <td>Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol</td> <td>Da</td> <td>-</td> <td>-</td> </tr> <tr> <td>Ymateb i'r cyhoedd</td> <td>Da</td> <td>1</td> <td>AFI 2 – Mae'r heddlu angen ymateb i alwadau am wasanaeth yn unol â'i amseroedd presenoldeb cyhoeddedig a sicrhau, pan nad ydy hyn yn digwydd, fod dioddefwyr yn cael eu diweddarau'n llawn</td> </tr> </tbody> </table>			Maes	Graddio	Nifer feysydd y dylid gwella	Maes i'w Wella	Darparu gwasanaeth i ddioddefwyr trosedd	Heb radd	-	-	Ymgysylltu a thrin y cyhoedd yn deg a pharchus.	Digonol	1	AFI 1 – Dylai'r heddlu sicrhau, o ran ei ddefnydd o rym, bod holl swyddogion a staff perthnasol yn cofnodi pan ddefnyddir grym a bod goruchwyliaeth effeithiol.	Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	Da	-	-	Ymateb i'r cyhoedd	Da	1	AFI 2 – Mae'r heddlu angen ymateb i alwadau am wasanaeth yn unol â'i amseroedd presenoldeb cyhoeddedig a sicrhau, pan nad ydy hyn yn digwydd, fod dioddefwyr yn cael eu diweddarau'n llawn
Maes	Graddio	Nifer feysydd y dylid gwella	Maes i'w Wella																				
Darparu gwasanaeth i ddioddefwyr trosedd	Heb radd	-	-																				
Ymgysylltu a thrin y cyhoedd yn deg a pharchus.	Digonol	1	AFI 1 – Dylai'r heddlu sicrhau, o ran ei ddefnydd o rym, bod holl swyddogion a staff perthnasol yn cofnodi pan ddefnyddir grym a bod goruchwyliaeth effeithiol.																				
Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol	Da	-	-																				
Ymateb i'r cyhoedd	Da	1	AFI 2 – Mae'r heddlu angen ymateb i alwadau am wasanaeth yn unol â'i amseroedd presenoldeb cyhoeddedig a sicrhau, pan nad ydy hyn yn digwydd, fod dioddefwyr yn cael eu diweddarau'n llawn																				



Ymchwilio Trosedd	Angen Gwella	3	AFI 3 – Dylai'r heddlu sicrhau fod ymchwiliadau'n cael eu goruchwylio gan sicrhau yr ystyrir holl gyfleoedd ymchwilio.
--------------------------	--------------	---	---

Maes	Graddio	Nifer feysydd y dylid gwella	Maes i'w Wella
Ymchwilio Trosedd (parhad)	Angen Gwella	3	<p>AFI 4 – Mae'r heddlu angen sicrhau ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion y Codau Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd. Mae hyn yn cynnig y cyfle i bobl wneud datganiadau personol dioddefwyr a chwblhau asesiad anghenion dioddefwyr.</p> <p>AFI 5 - Rhaid i'r heddlu rhoi llywodraeth briodol ar waith a phrosesau monitro i wneud yn siŵr bod y defnydd o ganlyniadau yn briodol a'i fod yn cydymffurfio gyda pholisïau'r heddlu a pholisïau cenedlaethol.</p>
Gwarchod Pobl Fregus	Digonol	2	<p>AFI 6 – O fewn chwech mis dylai'r heddlu'n dangos fod ganddo ddigon o allu o fewn yr Uned Atgyfeirio Ganolog, ac mae hyn wedi arwain at asesiadau risg amserol yn cael eu cwblhau ac mae staff yn gallu mynychu cyfarfodydd gan aml-asiantaethau.</p> <p>AFI 7 – Dylai'r heddlu fod yn fwy mentrus wrth hyrwyddo gwaith aml-asiantaeth er mwyn sicrhau fod pobl fregus yn cael eu diogelu'n effeithiol.</p>
Rheoli Troseddwyr a Rhai o dan Amheuaeth	Digonol	2	<p>AFI 8 – Dylai'r heddlu adolygu ei allu digidol o fewn Timau Ymchwilio Cam-drin Plant Ar-lein (OCAIT) a Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar (MOSOVO).</p> <p>AFI 9 – Dylai'r heddlu adolygu ei arfer rheoli troseddwyr rhyw.</p>
Creu, cynorthwyo a gwarchod y gweithlu	Da	-	-



Cynllunio strategol, rheoli sefydliadol a gwerth am arian

Digonol

2

AFI 10 – Mae'r heddlu angen deall eu gallu'n well a sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau gwell i w gymunedau.

AFI 11 – Mae'r heddlu angen gwella sut mae'n trosglwyddo ei gynlluniau ariannol a'r heriau mae'n wynebu wrth gyflawni ei wasanaethau.

Mae'r naw AFI a roddwyd i'r heddlu yn dilyn arolwg 2019 i gyd wedi'u cau ar wahân i un, sy'n ddibynnol ar yr adroddiad Fetio ar gyfer yr heddlu, Mawrth 2023.

Dyrannwyd yr AFI newydd a oedd yn deillio o'r adroddiad i berthnigion ar y SPOLB (*Bwrdd Cynllunio Strategol a Dysgu Sefydliadol yr Heddlu*) wedi'i gadeirio gan y Prif Uwcharolygydd Helen Corcoran. Dyma'r fforwm a fydd yn monitro cynnydd o ran cwblhau'r AFI. Rhoddir sicrwydd wedi hynny i'r DBG yn ei Fwrdd Cyflawniad.

Proses gymeradwyo haenau newydd ar gyfer argymhellion ac AFI

Mae HMICFRS wedi cyflwyno proses haenog newydd ar gyfer cymeradwyo argymhellion ac AFIs:

- **Lefel 1:** Bydd y lefel hon yn berthnasol i argymhellion hanesyddol y mae HMICFRS yn teimlo dylai fod wedi'u cwblhau oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers cael eu dyrannu.
- **Lefel 2:** Mae'r lefel hon yn caniatáu heddluoedd (Prif Gwnstabiailid) gymeradwyo argymhellion pan ystyrir eu bod wedi'u cwblhau. Bydd gofyn i Brif Gwnstabiailid ysgrifennu at HMICFRS er mwyn eu hysbysu o'r camau a gymerwyd er mwyn cwblhau argymhelliad. Bydd y lefel hon yn berthnasol i Argymhellion/AFIs o arolygon thematig.
- **Lefel 3:** Bydd y lefel hon angen adolygiad gan yr FLL er mwyn cadarnhau cwblhau a bydd yn berthnasol i arolygon penodol i'r heddlu, fel y Ddalfa, Gwarchod Plant a PEEL.
- **Lefel 4:** Bydd y lefel hon yn cael ei defnyddio pan mae HMICFRS yn teimlo mae gwaith arolwg pwrpasol yn angenrheidiol er mwyn gwirio am gydymffurfiaeth. Defnyddir hyn pan mae heddluoedd yn y cyfnod 'ymgysylltu', neu lle mae maes pryder uwch.

Mae HMICFRS newydd ddiweddarau eu porth, gan ddyrannu'r haenau newydd i unrhyw AFIs presennol ac argymhellion. Mae'r Tîm Archwilio ac Arolygu bellach yn y broses o baratoi adroddiad er mwyn caniatáu Prif Swyddogion i gymeradwyo'r argymhellion hynny'n ffurfiol sy'n gyflawn ac sy'n syrthio o dan Haen Dau.

Fframwaith Asesu Peel 2023/24

Mae Fframwaith Asesu PEEL 2023/24 wedi'i rannu gyda heddluoedd ac mae'n cynnwys manylion ynghylch y cwestiwn a osodwyd ar gyfer y rownd nesaf o arolygon PEEL. Mae pob set o



gwestiynau'n rhannu'r nodweddion 'Da' y dylai heddluoedd anelu tuag atynt a'i ddefnyddio fel meincnod rhag cwblhau eu hunanasesiadau. Cwblheir y darn hwn o waith gan y Tim Archwilio ac Arolygu ynghyd ag arweinyddion gwasanaeth ar y cyd â'r canfyddiadau o'n hadroddiad ar gyfer 2021/22.

Darperir copi o'r fframwaith hwn er gwybodaeth i chi:



Bydd mis Ionawr 2024 yn gweld dechrau cyfnod nesaf yr arolwg PEEL ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru. Bydd hyn gweld HMICFRS yn dod i gyfarfodydd yr heddlu er mwyn arsylwi, cyfweld arweinwyr arbenigol yr heddlu, arwain grwpiau ffocws gyda swyddogion a staff a chynnal adolygiad dogfennau'r heddlu.

Troseddau Difrifol a Threfnedig ac Arolygon Fetio

Tra mae Troseddau Difrifol a Threfnedig a Fetio/Gwrthlygredd wedi'u tynnu o'r amserlen arolygu graidd, maent yn parhau i ffurfio rhan o'r broses PEEL, ond yn cynnwys y sefyllfa genedlaethol a rhanbarthol.

Arolygwyd Heddlu Gogledd Cymru ar Droseddau Difrifol a Threfnedig yn ystod yr wythnos yn dechrau 27 Chwefror 2023, fel rhan o ranbarth y Gogledd Orllewin. Mae'r ôl drafodaeth yn union ar ôl hynny sy'n amlinellu'r canfyddiadau cychwynnol o'r arolwg hwn i fod i ddigwydd ar ddydd Llun 6 Mawrth 2023 gyda'r PGC ac UDRh Troseddau Difrifol a Threfnedig.

Arolygwyd Safonau Fetio Heddlu Gogledd Cymru rhwng 27 a 29 Medi 2022. Mae'r adroddiad drafft ar gyfer gwiriadau cyn cyhoeddi i fod yn yr wythnos yn dechrau 6 Mawrth 2023 gyda'r cyhoeddi i fod rŵan ym mis Mai 2023.

Adroddiad Thematig Cenedlaethol: Arolwg o fetio, camymddwyn a chasineb at ferched yn y gwasanaeth heddlu

Cyhoeddwyd yr adroddiad thematig cenedlaethol i fetio, camymddwyn a chasineb at ferched yn y gwasanaeth heddlu ar 2 Tachwedd 2022. Arweiniodd canfyddiadau'r arolwg hwn at 43 o argymhellion a 5 AFIs i Brif Gwnstabiliaid, y Coleg Plismona, y Swyddfa Gartref a'r CCPSH i'w ystyried.

Mae gweithredu'r argymhellion hyn ac AFIS ymhell ar y gweill gydag adroddiadau RAG misol i'r CCPSH, sy'n rhedeg yn unol â'r dyddiadau cau ar gyfer cwblhau fel yr amodwyd gan HMICFRS. Defnyddir yr adroddiadau cynnydd misol hyn gan CCPSH er mwyn eu galluogi nhw adrodd i Uwch gydweithwyr Plismona, y Swyddfa Gartref a Gweinidog y Llywodraeth ar y cynnydd mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn genedlaethol.

Adroddiad ar ymweliad arolwg dirybudd i ddalfeydd yr heddlu yn Heddlu Gogledd Cymru



HEDDLU GOGLEDD C

Gogledd Cymru

Edrychodd HMICFRS ar ein cynnydd o ran yr achosion sy'n peri pryder/argymhellion ac AFIs ar 15th Rhagfyr 2022. Yn dilyn y cyfarfod, mae 7 o'r 18 AFI wedi'u cydnabod fel cyflawn, gyda chynnydd sylweddol o ran pob un ond un o'r AFI sydd ar ôl a'r achosion pryder/argymhellion. Mae Arweinydd Cyswilt yr Heddlu yn hyderus y byddwn toc yn gallu cau sawl AFI sy'n weddill, yn enwedig y rhai hynny sy'n dibynnu ar gwblhau'r adnewyddu arfaethedig yn nalfeydd Caernarfon a Llai.

Ceir dadansoddiad manylach o'r rhai hynny sy'n parhau ar agor a'r rhai hynny sydd wedi'u cau isod:

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU
A THROSEDD GOGLEDD C YMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME
COMMISSIONER NORTH WALES

Ar agor	Wedi cau
AFI 2 – Dylai'r heddlu gryfhau ei ymdriniaeth tuag at reoli cyflawniad drwy gasglu a monitro gwybodaeth gywir ar gyfer ei brif wasanaethau a dangos y canlyniadau a gyflawnir ar gyfer carcharorion.	AFI 1 – Dylai'r heddlu sicrhau fod holl staff y ddalfa yn dilyn APP (Carcharu a Dalffa) y Coleg Plismona, ynghyd a'i ganllawiau ei hun. Bydd hyn yn golygu y bydd carcharorion yn derbyn lefel triniaeth a gofal briodol a chyson.
AFI 3 – Dylai swyddogion bob amser gael mynediad at gyngor gan wasanaethau iechyd meddwl er mwyn eu cynorthwyo ymdrin â phobl gyda salwch meddwl yn briodol.	AFI 5 – Dylai'r heddlu gryfhau ei ymdriniaeth tuag at fodloni anghenion unigol ac amrywiol carcharorion drwy sicrhau: - bod darpariaeth addas ym mhob dalffa ar gyfer y rhai gydag anabledau - y gofynnir i bob carcharor nodi eu hethnigrwydd - bod aelod benywaidd o staff ar gael ar gyfer carcharorion benywaidd, ac yn cyflawni'r rôl yn effeithiol; a - bod digon o adnoddau ar gyfer y prif grefyddau ym mhob dalffa, a'u bod yn cael eu rhoi i'r rhai hynny sydd efallai eu hangen.
AFI 4 – Dylai'r heddlu wella ei ymdriniaeth tuag at urddas a phreifatrwydd y carcharor drwy sicrhau: - bod staff yn cyfathrebu gyda charcharorion mewn ffordd sy'n ymateb i'w hanghenion unigol - gall carcharorion ddadlennu gwybodaeth breifat neu sensitif mewn amgylchfyd cyfrinachol, gan gynnwys yn ystod yr asesiad risg cychwynnol - gall carcharorion arddangos preifatrwydd ym mhob dalffa; a - mae dillad carcharorion i'w tynnu gyda pharch a'u cadw'n iawn bob amser.	AFI 6 – Dylai swyddogion y ddalfa ddarparu fersiwn darllen hawdd o hawliau a hawliadau i blant, oedolion bregus a charcharorion eraill fyddai'n elwa ohonynt o hyd
AFI 7 – Dylai carcharorion allu cwyno'n hawdd, a chyn iddynt adael y ddalfa.	AFI 9 – Dylai'r heddlu lynu at ofynion cyfreithiol rheoliadau tân, yn enwedig o ran gwacau brys. Dylid dangos arwyddion allanfeydd tân priodol yn Llanelwy.
AFI 8 – Dylai hysbysiadau yn hysbysu fod CCC ar waith yn bennaf drwy'r dalfeydd.	AFI 10 – Dylai carcharorion dderbyn ôl-ofal priodol pan chwistrellir hwy ag analluogydd.
AFI 12 – Dylai'r heddlu wella ei ofal ar gyfer carcharorion drwy sicrhau: - cynigir carcharorion yr ystod o wasanaethau ar gael, gan gynnwys llyfrau, deunyddiau tynnu sylw, bwyd, ymarfer neu gawod; ac - bod ystod dda o fwyd ar gael bob amser.	AFI 11 - Dylai gefynnau gael eu tynnu o garcharorion sy'n cydymffurfio ar y cyfle cyntaf
AFI 13 – Dylai'r heddlu gryfhau ei ymdriniaeth i AAs drwy sicrhau: - bod holl oedolion bregus yn y ddalfa yn derbyn AA; a - bod holl blant ac oedolion bregus yn y ddalfa yn cael eu cynorthwyo'n gyflym, ac y cesglir gwybodaeth er mwyn asesu hyn.	AFI 15 – Dylai safonau cysylltiadau proffesiynol a chadw cofnodion y ddalfa gael eu gwirio gan archwiliad clinigol rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

AFI 14 – Dylai'r heddlu barhau i gydweithredu gydag awdurdodau lleol er mwyn gwella darpariaeth amgen i blant sy'n cael eu cyhuddo a gwrthod mechnïaeth.	
AFI 16 – Dylai carcharorion allu cael mynediad at therapi yn lle opiad a chynnyrch disodli nicotin tra yn y ddalfa.	
AFI 17 – Dylai'r heddlu sicrhau: - y dylai swyddogion y ddalfa ymgysylltu gyda charcharorion sydd wedi trosglwyddo i'r llys, er mwyn nodi a lliniaru risgiau cyn eu trosglwyddiad o'r ddalfa; a - cofnodion hebryngwr unigolyn papur i'w cwblhau'n llawn ar gyfer carcharorion sy'n trosglwyddo i'r ysbyty, yn unol â chanllawiau'r APA.	
Arg 1 – Dylai'r heddlu weithredu ar unwaith er mwyn sicrhau bod holl weithdrefnau ac arferion y ddalfa yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth a chanllawiau.	
Arg 2 – Dylai'r heddlu graffu'r defnydd o rym yn y ddalfa. Dylai hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth gywir a sicrwydd ansawdd cadarn, gan gynnwys gweld ffilm CCC o ddigwyddiadau. Dylid defnyddio hyn er mwyn dangos ei bod yn angenrheidiol a chymesur pan ddefnyddir grym yn y ddalfa.	
Arg 3 – Dylai'r heddlu sicrhau fod y wybodaeth a gofnodir yng nghofnodion y ddalfa yn gywir a chyflawn. Dylai adlewyrchu'n glir y gweithredu unigol a gymerir a'r rhesymau am unrhyw benderfyniadau ar gyfer pob carcharor. Dylai'r heddlu gael sicrwydd ansawdd cadarn o ran cofnodion y ddalfa er mwyn nodi a gweithredu unrhyw bryderon.	
Arg 4 – Dylai'r heddlu weithredu ar unwaith er mwyn lliniaru'r risg i garcharorion drwy sicrhau bod ei arferion rheoli risg yn dilyn canllawiau APA a'u bod yn cael eu cyflawni a'u cofnodi i'r safon angenrheidiol.	

Argymhellion:	Dim.
Effaith cofrestrisgiau:	Dim.
Goblygiadau sicrwydd:	Dim.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim.



TERFYNOL

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

2022/23

Mawrth 2023

Adolygiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno (SICA)

Cyflwyniad

- Mae'r adroddiad rheolaeth sicrwydd cryno hwn yn cynnig diweddariad i'r Cydbwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud â materion sy'n berthnasol i Lywodraethu, Risg a Rheolaeth Fewnol ac ar gynnydd ein gwaith ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru fel ar 6 Mawrth 2023.

CYDYMFFURFIAETH TIAA GYDA SAFONAU A CHODAU YMARFER YR IIA

- Comisiynodd TIAA Limited Asesiad Ansawdd Allanol o'i wasanaethau archwilio mewnol yn 2022. Mae angen Asesiad bob pum mlynedd, yn unol â gofynion y Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol a'r Safonau a osodir gan Sefydliad Byd-eang Archwilwyr Mewnol. Ystyriodd yr Asesiad allanol ein cydymffurfiaeth gyda'r Fframwaith a'r Safonau a hefyd Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sy'n llywodraethu archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus.

Ymgwymerwyd â'n Hasesiad annibynnol gan uwch bartner yn Chiene + Tait, cwmni cyfrifydd hir sefydledig ac o ansawdd uchel sydd â'u pencadlys yng Nghaeredin gyda swyddfeydd yn yr Alban a Llundain. Asesodd yr adolygiad ddull archwilio mewnol TIAA a'i gyflawniad o ran yr Egwyddorion Craidd, y Cod Moeseg a'r Safonau. Ystyriodd ein fframwaith cynhwysfawr, ein polisiau arweiniol, diwylliant sefydliadol, cynllunio a chyflawni, buddsoddiad yn ein pobl, offer a thechnegau a'n fframwaith sicrwydd ansawdd, gan gynnwys adborth gan gleientiaid.

Rydym yn falch o gadarnhau fod yr asesydd annibynnol wedi gallu dod i'r casgliad fod TIAA 'yn cydymffurfio'n gyffredinol i ofnion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac elfennau gorfodol Fframwaith Arferion Proffesiynol Rhyngwladol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol'. 'Cydymffurfio'n gyffredinol' ydy'r radd uchaf a ellir ei chyflawni gan ddefnyddio model asesu Ansawdd Allanol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol. Nodwyd hefyd nad oedd meysydd o ddiffyg cydymffurfio neu gydymffurfio rhannol gyda'r Safonau.

Canmolwyd TIAA hefyd ar y safonau dogfennau a roddwyd a alluogodd iddynt ffurfio casgliad cadarnhaol.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad diwethaf SICA i'r Cydbwyllgor Archwilio

- Mae'r tabl isod yn gosod manylion o'r archwiliadau sydd wedi eu cwblhau ers y cyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor Archwilio.

Archwiliadau a gwblhawyd ers adroddiad blaenorol SICA

Adolygiad	Gwerthusiad	Dyddiadau Allweddol			Niferoedd Argymhellion			
		Drafft wedi'i chyhoeddi	Ymatebion a Dderbyniwyd	Cyhoeddi drafft terfynol	1	2	3	OEM
Rhanbarth Canolog – Uned Reoli (cyflwynwyd yn CA mis Rhagfyr)	Rhesymol	19 Hydref 2022	11 Tachwedd 2022	14 Tachwedd 2022	-	2	2	1
Rhanbarth Canolog – Uned Reoli (cyflwynwyd yn CA mis Rhagfyr)	Cyfyngedig	26 Hydref 2022	11 Tachwedd 2022	15 Tachwedd 2022	2	6	5	1
Cyfathrebiadau Corfforaethol	Sylweddol	14 Tachwedd 2022	17 Tachwedd 2022	17 Tachwedd 2022	-	-	-	-
Adolygiad Cydweithredol o'r Rhaglen Gyfalaf - Cydweithredol	Sylweddol	2 Rhagfyr 2022	4 Ionawr 2023	5 Ionawr 2023	-	-	-	-
Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol o Dreuliau a Thaliadau Ychwanegol	Sylweddol	28 Hydref 2022	12 Ionawr 2023	16 Ionawr 2023	-	-	2	1
Adolygiad Sicrwydd Cydweithredol Credydwyd	Sylweddol	24 Ionawr 2023	24 Ionawr 2023	24 Ionawr 2023	-	-	-	1

Adolygiad	Gwerthusiad	Dyddiadau Allweddol			Niferoedd Argymhellion			
		Drafft wedi'i chyhoeddi	Ymatebion a Dderbyniwyd	Cyhoeddi drafft terfynol	1	2	3	OEM
Rheolaeth y Fflyd – Atgyweirio	Rhesymol	1 Chwefror 2023	21 Chwefror 2023	22 Chwefror 2023	-	3	3	-
Trwyddedu Drylliau Tanio	Sylweddol	27 Chwefror 2023	6 Mawrth 2023	6 Mawrth 2023	-	-	-	-

4. Nid oes materion yn codi o'r canfyddiadau hyn a fyddai'n gofyn i'r Pennaeth Arolwg Barn blynyddol fod yn gymwys.

Cynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2022/23

5. Mae ein cynnydd o ran Cynllun Blynyddol 2022/23 wedi ei osod yn Atodiad A.

Newidiadau i Gynllun Blynyddol 2022/23

6. Nid oes meysydd lle argymhellir gwaith archwilio mewnol er mwyn gallu darparu Pennaeth Barn Archwilio diamod ar gyfer 2022/23.

Symud ymlaen gyda gweithredu argymhellion blaenoriaeth 1

7. Rydym wedi gwneud dau o argymhellion Blaenoriaeth 1 (h.y. materion rheoli sylfaenol y dylid gweithredu arnynt ar unwaith) ers y SICA blaenorol. Mae'r tabl isod yn crynhoi i ba raddau y cafwyd cadarnhad bod camau rheoli wedi'u cymryd bod y cysylltiad risg a nodwyd wedi'i liniaru'n effeithiol. Ceir mwy o wybodaeth yn Atodiad B.

Lleihau amlygiad i risg a nodwyd gan adolygiadau archwilio mewnol

Adolygiad	Dyddiad	Blaenoriaeth 1		
Eiddo'n Debygol o Newid (Eiddo Tystiolaethol)	2022/23	1	0	1

Dangosyddion achosion gwraidd

8. Datblygwyd y dangosyddion gwraidd achos (RCI) gan TIAA i roi cyfeiriad treigl strategol ar gyfer asesiad llywodraethu, risg a rheolaeth teithio ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Caiff pob argymhelliad a wneir ei ddadansoddi i sefydlu achos sylfaenol y mater sy'n arwain at yr argymhelliad (RCI). Mae angen ystyried y dadansoddiad dros gyfnod parhaus, yn hytrach nag ar sail unigol bob chwarter. Mae canrannau, yn hytrach na nifer wirioneddol yr adolygiadau/argymhellion a wneir yn caniatáu nodi'r cyfeiriad teithio yn fwy effeithiol. Mae saeth tuag i lawr yn arwydd o leihad cadarnhaol mewn risg mewn perthynas â'r RCI penodol ers y chwarter blaenorol.

DAG – Cyfeiriad Asesiad Teithio

Dangosyddion Achosion Gwraidd	Chwarter 1 (2022/23)	Chwarter 2 (2022/23)	Chwarter 3 (2022/23)	Chwarter 4 (2022/23)	Cyfeiriad Teithio yn y Tymor Canolig	Arsylwad Archwiliad
Cyfarwyddwyd						
Fframwaith Llywodraethu	-	50% (1)	-	4% (1)	↓	Dim argymhellion yn Ch3.
Lliniaru Risg	-	50% (1)	-	-	↔	
Cydsyniad Rheolaeth	70% (7)	-	-	96% (24)	↓	Mae'r mwyafrif o argymhellion yn parhau i fod yn berthnasol i gydymffurfiaeth.
Cyflawniad						
Monitro Cyflawniad	-	-	-	-	↔	
Cynaliadwyedd	-	-	-	-	↔	
Gwytnwch	30% (3)	-	-	-	↔	

Twyll/Anghysondebau

9. Nid ydym wedi clywed am dwyll neu anghysondebau yn y cyfnod ers i'r adroddiad cryno diwethaf gael ei gyhoeddi.

Materion Eraill

10. Rydym wedi cyhoeddi nifer o nodiadau briffio a threuliau twyll, a ddangosir yn Atodiad C, ers adroddiad blaenorol yr SICA. Mae'r camau a gymerwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru wedi'u crynhoi isod:

Camau a gymerwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru mewn ymateb i Rybuddion a roddwyd gan TIAA

Nodyn Briffio	Ymateb Rheolwyr
Ni chyhoeddwyd CBN ers y SICA diwethaf ym mis Tachwedd 2022	I'w ddarparu gan Heddlu Gogledd Cymru yn y diweddariad Archwilio Mewnol

Rhybudd Twyll	Ymateb Rheolwyr
Chwe Thwyll Nadoligaidd	I'w ddarparu gan Heddlu Gogledd Cymru yn y diweddariad Archwilio Mewnol
Anfonebau ffug yn cael eu cylchredeg am dalu stoc swyddfa	
Twyll Hawlio Costau	

Rhybudd Diogelwch

Risg Camera Diogelwch

Cyfrifoldeb/Ymwrthodiad

11. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi'n unswydd ar gyfer defnydd y rheolwyr ac ni ddylid ei ddyfynnu neu gyfeirio ato yn llawn neu yn rhannol i drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol. Nid ydy'r materion a godir yn yr adroddiad hwn o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli neu'r holl welliannau y gellid eu gwneud. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi cael ei baratoi, na'i fwriadu ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Nid yw TIAA yn derbyn nac rhoi unrhyw ddyletswydd gofal i unrhyw barti eraill a fydd yn derbyn yr adroddiad hwn ac yn benodol yn ymwadu unrhyw gyfrifoldeb am golled, niwed neu wariant o unrhyw natur, sy'n cael ei achosi ar ddibynnu ar ein hadroddiad.

Progress against Annual Plan 2022-23

System	Planned Quarter	Current Status	Comments
Collaborative – Pan Wales			
Creditors	2	Final Report Issued 24 th January 2023	Presented to March 2023 JAC
Fleet Management – Strategy	3	Draft report issued 24 th November 2022	
Counter-Fraud (Anti-Fraud Procurement)	3	Draft report issued 14 th February 2023	Lead Force – South Wales
Payroll	2	Draft report issued 20 th February 2023	
Risk Management – Mitigating Risk	1	Final Report Issued 31 st August 2022	Presented to October 2022 JAC
Capital Programme	3	Final report issued 5 th January 2023	Presented to March 2023 JAC
Expenses and Additional Payments	2	Final report issued 16 th January 2023	Presented to March 2023 JAC
Fixed Assets – ICT Assets	2	North Wales Police only, have deferred this to Q1 2023/24	Lead Force – Dyfed-Powys – North Wales Police have deferred their audit until Quarter 1 2023/24 at the request of Management
HR – Use of OLEEO	1	Planned start date 27 th March 2023	Lead Force - NWP
North Wales Only			
Health and Safety Management	3	Site work completed	Draft report due shortly
Treasury Management	3	Site work completed	Draft report due shortly
Vetting	2	Draft report issued 13 th December 2022	
Cyber Security	3	Draft report issued 12 th January 2023	
HR Absence Management	3	Draft report issued 20 th January 2023	
Firearms Licensing	3	Draft report issued 6 th March 2023	Presented to March 2023 JAC
Estates Management – Delivery	1	Final report Issued 1 st July 2022	Presented to July 2022 JAC
Wellbeing and Strategy	1	Final report Issued 27 th July 2022	Presented to October 2022 JAC

System	Planned Quarter	Current Status	Comments
Contract Management – (Building/ICT/Services Project 2022/23)	1	Final report issued 7 th September 2022	Presented to October 2022 JAC
Pensions	2	Final report issued 9 th November 2022	Presented to December 2022 JAC
Central Area – Command Unit	1	Final report issued 14 th November 2022	Tabled at December 2022 JAC
Property Subject to Charge (Evidential Property)	1	Final report issued 15 th November 2022	Presented to December 2022
Corporate Communications	1	Final report issued 17 th November 2022	Presented to March 2023 JAC
Fleet Management – Repairs	3	Final report issued 28 th February 2023	Presented to March 2023 JAC
ICT Change Management	2	Planned start date 31 st March 2023	Moved to Q4
Community Engagement	2	Deferred to 2023/24	Deferred at the request of Management
Liaison with Audit Wales Management	01-Apr	N/A	
Follow-up	4	Site work completed	
Annual Planning	1	Final report issued 30 th June 2022	
Annual Report	4		
Audit Management	1-4		

KEY:

To be commenced	Site work commenced	Draft report issued	Final report issued
-----------------	---------------------	---------------------	---------------------

Priority 1 Recommendations - Progress update

Recommendation	Priority	Management Comments	Implementation Timetable	Responsible Officer	Action taken to date (and any extant risk exposure)	Risk Mitigated
Property Subject to Change (Evidential Property)						
Further action be taken to follow up the numerous dated exhibits on the RMS (Resource Management System) Property Management System that are still recorded as 'Out to Officer,' 'Returned to Owner' and exhibits 'Sent for Testing' with the Officers in the Case.	1	<p><i>Without wishing to denigrate the concerns of the auditor I believe that the 70% reduction on the figures recorded last year indicate that this area is very much focussed on and is subject to peaks and troughs of demands from operational policing.</i></p> <p><i>It is acknowledged that an escalation process is required in order to gain the necessary response from officers to Property enquiries this will include creating a new email address for the evidence and property department rather than depending on the RMS tasking alone.</i></p> <p><i>A process map will be created that gives clear instructions on the timeliness of replies and corresponding escalation route. It is evident that the tasking process on RMS does not provide sufficient scrutiny around responses.</i></p>	31/01/2023	Property and Exhibits Manager	<p>March 2023</p> <p><i>Escalation process is now in place for current exhibits out to officer and the Property and Exhibits Manager is working to get an automated task process in place, however, there is still work to be done on the older exhibits identified in this and the previous review. A revised target date is to be provided</i></p>	

Recommendation	Priority	Management Comments	Implementation Timetable	Responsible Officer	Action taken to date (and any extant risk exposure)	Risk Mitigated
	<ul style="list-style-type: none"> ○ Risg wedi ei symud o Gofrestr Risgiau'r Heddlu ers yr adroddiad diwethaf <ul style="list-style-type: none"> ● Risg 011 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG ● Risg 067 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG ● Risg 079 Hyfforddiant Cwrs Gloywi Gorfodol ● Risg 092 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG ● Risg 107 Tanstaffio Plismona'r Ffyrdd ○ Newidiadau i'r Risgiau ar Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf <ul style="list-style-type: none"> ● Risg 073 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG ● Risg 085 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG ○ Gweithrediadau Cofrestr Risg yr Heddlu <ul style="list-style-type: none"> ● Graddau RAG Gweithrediadau Risg ○ Cofrestr Risg COVID19 ○ Datblygiadau o ran rheoli risg <ul style="list-style-type: none"> ● Adolygiad annibynnol gan Gallagher Bassett ○ Mapio sicrwydd ○ Tabl yn crynhoi Cofrestr Risg yr Heddlu ar 06/03/23.
Argymhellion:	Dim
Effaith Cofrestr Risgiau:	Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gofnodion a gofnodwyd ar Gofrestr Risg a Chofrestr Risg COVID 19 yr Heddlu
Goblygiadau Sicrwydd:	Mae'r adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i ddatblygu sicrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i Heithrio o Ddadleniad:	Do (amlygwyd mewn melyn)

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar broses rheoli risg sefydliadol gan roi trosolwg o statws risgiau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru sy'n seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd a chofnodwyd erbyn 6 Mawrth 2023 ar Gofrestr Risg yr Heddlu fersiwn 6.130.

Mae risgiau prosiectau yn cael eu rheoli ar wahân o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolios. Fodd bynnag mae'r rhai hynny sydd angen sylw'r Heddlu yn cael eu rhoi ar Gofrestr Risg yr Heddlu drwy'r broses a gytunir a ddogfennir yn y Fframwaith Mapio Risg a Sicrwydd.

1. FORCE RISK REGISTER SUMMARY

We continue to embed our approach to Risk Management across the organisation through regular interaction with the Risk Leads/Owners either monthly or quarterly (dependent on the risk type). Reminders have been sent to relevant individuals to review and update ongoing actions to ensure the risk remains on target. In addition to this we continue to conduct a monthly review of all risks and raised any concerns or issues with the Risk Leads and Senior Management Team's (SMT's) via their risk highlight reports. Risks are also reported to and reviewed at the Senior Leadership Team (SLT) Meeting, Senior Management Team (SMT) Meetings, Strategic Management Board (SMB), Strategic Executive Board (SEB), Strategic Operational Board (SOB), Strategic Change and Collaboration Board (SCCB), with no issues or exceptions having been raised. A summary of all risks recorded on the Force Risk Register are also reported to the Assurance Board.

2. CRYNODEB COFRESTR RISG YR HEDDLU

Rydym yn parhau i osod ein hymdriniaeth i Reoli Risg ledled y sefydliad drwy ryngweithio rheolaidd gyda'r Arweinwyr/Perchnogion Risg un ai'n fisol neu'n chwarterol (yn dibynnu ar y math o risg). Mae nodiadau atgoffa wedi'u hanfon at yr unigolion er mwyn adolygu a diweddarau gweithrediadau parhaus er mwyn sicrhau bod risg yn parhau i gyrraedd y targed. Ar ben hyn, rydym yn parhau i gynnal adolygiad misol o bob risg ac wedi codi unrhyw bryderon neu broblemau gydag Arweinwyr Risg ac Uwch Dimau Rheoli drwy eu hadroddiadau prif faterion risg. Mae risgiau hefyd wedi cael eu riportio a'u hadolygu yng Nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain (SLT), Cyfarfodydd yr Uwch-Dim Rheoli (SMT) Bwrdd Rheoli Strategol (SMB), yr Uwch Fwrdd Strategol (SEB), y Bwrdd Gweithredu Strategol (SOB), Bwrdd Newid a Chydweithredu Strategol (SCCB) gyda dim materion nac eithriadau wedi'u codi. Adroddir crynodeb o'r holl risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu i'r Bwrdd Sicrwydd hefyd.

Tabl 1: - Risgiau HGC ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 9 Tachwedd 2022 - 6 March 2023

Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau	Cyfanswm Blaenorol Risg HGC	Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn	Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn	Risgiau HGC a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu
Difrifol	8	1	2	9
Uchel	20	4	2	18
Canolig	1	0	0	1
Cyfanswm	29	5	4	28

Tabl 2: - Risgiau HGC ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu 9 Tachwedd 2022 - 6 Mawrth 2023

Lefelau'r Risg cyn Rheolaethau	Cyfanswm Blaenorol Risg SCHTh	Risgiau a dynnwyd yn y cyfnod hwn	Risgiau Newydd yn y cyfnod hwn newydd yn y cyfnod hwn	Risgiau SCHTh a gofnodir ar hyn o bryd ar Gofrestr Risg yr Heddlu
Difrifol	1	0	0	1
Uchel	1	0	0	1
Canolig	0	0	0	0

Cyfanswm	2	0	0	2
----------	---	---	---	---

3. NEWIDIADAU I'R RISGIAU A GOFNODWYD YNG NGHOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

Mae 4 risg newydd wedi'u hychwanegu at Gofrestr Risgiau'r Heddlu ers yr adroddiad risg CA diwethaf.

Risg 105 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

Risg 106 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

Risg 107 - Tanstaffio Plismona'r Ffyrdd

Mae Risg i ddelifro cyfrifoldebau craidd Uned Plismona'r Ffyrdd, **wedi'i achosi gan** brinder yn nifer y staff o fewn yr adran, **a all arwain at** fethu cynnig ymateb terfynol i wrthdrawiadau traffig ffyrdd angheuol neu ddifrifol a chyflwyno gwaith atal i gefnogi diogelwch ffyrdd cenedlaethol ac amcan CHTh i wella diogelwch ar y ffyrdd.

Sgoriwyd y risg i ddechrau ar 7 Medi²⁰²² ond arweiniodd oedi i'r risg gael ei greu a'i gofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 7 Rhagfyr 2022 ar gais Arolygwyr Plismona'r Ffyrdd. Cyn mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Roedd y Lefel Risg Presennol ar 7 Medi 2022 yn UCHEL. Arhoswyd am weithrediadau ac Arweinydd Risg gan Dîm Uwch-reoli'r Bwrdd Gweithredol Strategol (SMT).

Risg 108 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

4. RISGIAU A DYNWYD O GOFRESTR RISG YR HEDDLU ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

Mae 5 risg wedi cau ac wedi ei symud o'r Gofrestr Risg yr Heddlu ers yr adroddiad diwethaf.

Risg 011 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

Risg 067 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

Risg 079 Hyfforddiant Cwrs Gloywi Gorfodol

Codwyd y risg i ddechrau gan Grŵp Adfer Tactegol Covid19 ar 18 Mehefin 2020 a'u gofnodi ar Gofrestr Risg Covid19 o dan URN CV11/20. Trosglwyddwyd y risg draw i Gofrestr Risg yr Heddlu ar 2 Medi 2021 i reoli'r gweithrediadau sy'n ymwneud â Covid19.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Pennwyd y Lefel Risg Bresennol fel CANOLIG ond cafodd ei ostwng i ISEL ar 30 Rhagfyr 2022. Roedd y Lefel Targed yn ISEL.

Roedd y risg DDEINAMIG hon yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i swyddogion/staff oherwydd ddiffyg presenoldeb a oedd effeithio ar y niferoedd a hyfforddwyd **gall hyn fod wedi arwain at** swyddogion/staff yn methu ail-achredu gan eu rhoi nhw a'r cyhoedd mewn peryg ynghyd ag achosi cwynion a gweithrediad cyfreithiol.

Awdurdodwyd i gau'r risg a'i symud o Gofrestr Risg yr Heddlu yn y Bwrdd Gweithredol Strategol ar 16/01/23 oherwydd:

- Mae'r risg wedi'i thrin Cwblhawyd pob gweithrediad.
- Cyrhaeddwyd Lefel Risg ISEL.
- Mae'r risg wedi cael mapio sicrwydd (URN 018)

Yr Arweinydd Risg oedd Pennaeth Hyfforddiant.

Risg 092 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG

Risg 107 Tanstaffio Plismona'r Ffyrdd

Sgoriwyd y risg i ddechrau ar 7 Medi 2022, ond arweiniodd oedi i'r risg gael ei greu a'i gofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu ar 7 Rhagfyr 2022 ar gais Arolygwyr Plismona'r Ffyrdd.

Cyn y mesurau rheoli, penderfynwyd ar hyn fel risg UCHEL. Penderfynwyd y Lefel Risg Presennol i ddechrau fel UCHEL. Roedd y Lefel Targed yn ISEL.

Mae'r risg DYNAMIG yn gysylltiedig â'r delifro cyfrifoldebau craidd Uned Plismona'r Ffyrdd, **wedi'i achosi gan** nrinder yn nifer y staff o fewn yr adran, **gall hyn fod wedi arwain at fethu â** chynnyg ymateb derbynol i wrthdrawiadau traffig ffyrdd anghuol neu ddifrifol a chyflwyno gwaith atal i gefnogi diogelwch ffyrdd cenedlaethol ac amcan CHTi i wella diogelwch ar y ffyrdd.

Adolygwyd y risg gan y Gwasanaethau Cefnogi Gweithredol yr Uwch Dîm Rheoli, a gwnaed penderfyniad bod lliniaru mewn lle er mwyn i'r risg gael ei reoli gan Wasanaethau cefnogi gweithredol yr Uwch Dîm Reoli ac ni ddylid ei gofnodi ar Gofrestr Risg yr Heddlu.

Roedd y lliniaru ychwanegol yn symud adnoddau Tîm Rhyngipio'r Heddlu draw i Uned Plismona'r Ffyrdd i gynorthwyo gyda lefelau DSL/Staffio sydd wedi gwella.

Caewyd y risg a'i dynnu oddi wrth Gofrestr Risg yr Heddlu ar 9 IONAWR 2023.

5. NEWIDIADAU I'R RISGIAU A GOFNODWYD ERS YR ADRODDIAD DIWETHAF

Mae 2 risg wedi newid eu Lefelau Risg presennol ers yr adroddiad diwethaf.

- **Risg 073 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**
- **Risg 085 GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG**

6. GWEITHREDIADAU COFRESTR RISGIAU'R HEDDLU

Graddau RAG Gweithrediadau Risg

Gweithrediadau Ddim ar y Gweill	Gweithrediadau Ar y Gweill ond gyda Phroblemau	Gweithrediadau Ar y Gweill	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau
0	0	58	67

Mae risgiau wedi'u hamlygu gyda '*Gweithrediadau ar y Gweill ond gyda phroblemau*' yn berthnasol i Weithrediadau sy'n cael eu marcio ar hyn o bryd fel yn aros neu wedi gohirio ac yn disgwyl ar benderfyniadau ar gynnydd.

7. COFRESTR RISG COVID19 YR HEDDLU

Nid oes risgiau wedi'u cofnodi ar Gofrestr Risg Covid19 yr Heddlu.

8. DATBLYGIADAU O RAN RHEOLI RISGIAU

Prosesau Adolygiad Annibynnol o Brosesau Rheoli Risg

Mae'r Uwch-Dim Reoli yn cefnogi yn llawn gynnig gan Bennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes ar gyfer Yswirwyr yr Heddlu, Gallagher Bassett i wneud adolygiad annibynnol o'n Prosesau Rheoli Risg.

Darparwyd Cylch Gorchwyl a'i rannu gydag aelodau JAC. Yn gryno, mae'r methodoleg yn cynnwys pum cam allweddol:

Cam 1 - Adolygiad o Strategaeth Rheoli Risg Corfforaethol. Adolygiad bwrdd gwaith o ddogfennau allweddol yn cynnwys strategaethau rheoli risg, fframweithiau, strwythurau, gweithdrefnau a chofnodion o gyfarfodydd allweddol lle trafodir rheoli risg (ac eithrio chwant a goddefgarwch). Gellir darparu adroddiad unigol ar gyfer canfyddiadau'r cam hwn os yw Heddlu Gogledd Cymru yn penderfynu peidio â symud ymlaen i'r camau nesaf ar y cyfnod hwn.

Cam 2 - Rhanddeiliad yn cyfweld cyfres o gyfweiliadau/trafodaethau awr neu hanner awr o hyd gyda rhanddeiliaid allweddol i benderfynu sut mae rhoi strategaeth rheoli risg a'i effeithiolrwydd ar waith. Bydd y trafodaethau hefyd yn ystyried sut mae chwant a goddefgarwch risg yn cael eu gosod, eu cyfathrebu a'u defnyddio i ddylanwadu ar ymddygiadau cymryd risg a phenderfyniadau. Dylai'r rhai sy'n cael eu cyfweld gael eu dewis o bob lefel o hierarchaeth rheoli (yn lloerweddol ac yn fertigol) ond dylai gynnwys cynrychiolwyr o blith uwch swyddogion, aelodau o'r pwyllgor archwilio a chyfranwyr i'r gofrestr risg. Dylai rheolwyr comisiynu adolygiadau ddewis grŵp trawsadrannol o unigolion priodol. Rydym yn argymhell yn gryf bod lleiafswm o ddeg a mwyafswm o bymtheg rhanddeiliad yn cymryd rhan yn y cyfweiliad. Gall cyfweiliadau gael eu cynnal yn rhithiol (drwy Microsoft Teams) neu wyneb yn wyneb. Gofynnir cyfres o gwestiynau wedi eu penderfynu yn barod ar gyfer pob cyfweiliad ar gyfer cysondeb, gyda'r canlyniadau yn cael eu cofnodi.

Cam 3 - Holiadur rheoli risg ar-lein. Mae'r dewis i ddarparu rhanddeiliaid gyda'r cyfle i gwblhau holiadur ar-lein o fewn ffrâm amser penodol, gan ddefnyddio cyfres o gwestiynau wedi eu paratoi yn barod wedi eu gofyn yn uniongyrchol i feysydd cyfweld y rhanddeiliad. Dalier sylw: Bydd RMP yn darparu'r cwestiynau ond dylai rheoli'r holiadur rheoli risg ar-lein gael ei weinyddu gyda chanlyniadau di-enw gael eu pasio ymlaen i'r ymgynghorydd RMP er mwyn cael eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

Cam 4: - Cynhyrchu Adroddiad. Bydd yr adroddiad yn dod â chanlyniadau Cam 1 hyd at Gam 3 (lle bo'n briodol) a cheisio portreadu barn gytbwys ar effeithiolrwydd ac aeddfedrwydd arferion rheoli risg cyfredol (yn cynnwys awch risg a goddefgarwch), gan gymharu safonau arfer da a chynnig sylwadau ar gryfderau a chyfleoedd posib ar gyfer gwella. Bydd copi drafft o'r adroddiad yn cael ei ddarparu i'r rheolwr comisiynu o Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer gwiriad technegol cyn i'r fersiwn terfynol gael ei gyhoeddi.

Cam 5 - Cyflwyno canlyniadau. Fel bo'r galw, gellir fformatio canlyniadau'r adolygiad rheoli risg i mewn i gyflwyniad byr a'u delifro i rhanddeiliaid perthnasol gyda deunydd ar gyfer trafodaeth ac eglurdeb (lle bo angen).

Mae'r raddfa amser ar gyfer yr adolygiad hwn yn cael ei gynllunio gyda Gallagher Bassett a bydd yn ystyried adolygiadau Heddlu allanol.

Bydd aelodau JAC yn cael gwybod am sut mae pethau yn mynd ymlaen.

9. MAPIO SICRWYDD

Yn Ionawr 2020 cytunodd yr Uwch-Dîm Reoli y dylai'r Heddlu fabwysiadu mapio sicrwydd fel proses i gwblhau'r prosesau rheoli risg sy'n bodoli eisoes. Ers y dyddiad hwn, bydd diweddariadau yn cael eu darparu at fyrdau strategol yn cynnwys yr Uwch-dîm Arwain a JAC, a'r flwyddyn ddiwethaf, cafodd Pennaeth Cudd-wybodaeth Busnes a'r Arweinydd Risg a Pharhad Busnes gyfarfod gydag Arweinydd Risg JAC i redeg drwy'r broses yn fanwl. Darparwyd diweddariad pellach i bob aelod o JAC ar 22 Tachwedd 2022.

Beth ydy mapio sicrwydd a beth yw'r fantais?

Fformat a ddefnyddir i gofnodi ffynonellau allweddol o sicrwydd sy'n dangos bod rheoliadau yn eu lle i leihau risg. Mae mapiau sicrwydd hefyd yn pwysleisio bylchau ble mae'r rheoliadau yn methu ac o bosib bydd rhaid mynd i'r afael â nhw.

Bydd mapiau risg yn rhoi'r hyder i Brif Swyddogion ac Uwch Arweinwyr eu bod 'wir yn gwybod yr hyn maent yn meddwl eu bod yn gwybod' a bod lliniaru yn bodoli i reoli'r risg cyn gynted ag eu bod wedi cau a'u tynnu oddi wrth Gofrestr Risg yr Heddlu ac yn troi'n fusnes fel arfer.

- Mae'n darparu dealltwriaeth glir a chyflawn o'r risgiau mwyaf arwyddocaol sy'n cael eu gwynebu gan yr Heddlu wrth gwrdd ag amcan yr Heddlu o 'wneud Gogledd Cymru'r lle mwyaf diogel yn y DU'.
- Mae'n rhoi mwy o wytnwch ynghylch rheoli risg er mwyn sicrhau rheoliadau digonol i liniaru'r risgiau critigol.
- Mae'n darparu sicrwydd bod risgiau yn parhau i gael eu lliniaru cyn gynted ag y maent wedi cau a'u tynnu o Gofrestr Risg yr Heddlu ac yn dod yn fusnes fel arfer.
- Mae'n nabod meysydd ble nad oes gweithgareddau sicrwydd yn bresennol neu eu bod yn annigonol.
- Nodi meysydd ble mae sicrwydd yn cael eu dyblygu neu nid yw'n gymesur i'r risg.
- Nodi meysydd ble mae rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn methu a bod y risgiau yn fwy tebygol o ddigwydd.

GRADDAU SICRWYDD

Assurance Grading	Framework of Governance and Risk Control Measures	Assessment Outcome
Substantial	Substantial Assurance that control measures are in place. There are NO actions recorded on the Action Monitoring Log.	Unlikely that further Assurance activity is required in principle.
Reasonable	Reasonable Assurance that control measures are in place, however there are actions recorded on the Action Monitoring Log that require attention.	Further Assurance activity will be necessary to mitigate the outstanding actions recorded on the Risk Action Monitoring Log.
No Assurance	No Assurance There are no control measures in place	No Assurance activity in place – Urgent Attention is required

Bydd aelod o'r tîm sicrwydd yn graddio'r Map Sicrwydd yn seiliedig ar yr asesiad yn y tabl. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei Hadrodd i'r Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaethau.

Mae mapio sicrwydd wedi cael ei gydnabod yn rhywbeth sy'n ychwanegiad i'n prosesau rheoli risg ac yn ymarfer gwerthfawr sy'n helpu'r Heddlu ddeall a chadarnhau bod sicrwydd yn ei le dros rheoliadau allweddol wedi eu nodi i reoli risg, mae hefyd yn pwysleisio ble mae bylchau yn bodoli ac felly mae'n caniatáu HGC i fynd i'r afael â'r bylchau hynny.

Mae TIAA hefyd wedi gweld ein Mapio Sicrwydd heb unrhyw ofidion. Dylid nodi hefyd nad oes unrhyw heddlu arall yng Nghymru yn dilyn Sicrwydd Mapio.

Mae'r canlynol yn cynrychioli ciplun risgiau a gofnodwyd ar Gofrestr Risg yr Heddlu sydd wedi cael Mapio Sicrwydd. Graddiwyd y Risgiau i ddechrau fel 'SICRWYDD RHESYMOL' gan fod bylchau. Yn dilyn her a chraffu ychwanegol, roedd yr Arweinydd Risg yn gallu darparu tystiolaeth ddigonol bod bylchau wedi cael eu llenwi a bod y Graddio wedi ei newid i 'Sicrwydd Sylweddol'.

ASSURANCE MAPPING - PRIORITY GRADINGS		
1	URGENT	Fundamental control issue on which action should be taken immediately
2	IMPORTANT	Control issue on which action should be taken at the earliest opportunity
3	ROUTINE	Control issue on which action should be taken

Tabl

Disgrifiad wedi ei greu yn awtomatig

URN's		RISK	Grading	Direction of Travel	OUTSTANDING ACTIONS			TAGS					
Mapping URN	Risk Register				Urgent	Important	Routine	Reputation	H&S	Finance	IT	Information Security	Training
001	65	Social Media	Substantial				X			X			
002	47	Ability to integrate uplift officers	Substantial										
003	64	Overdue medicals	Substantial										
004	53	Vicarious trauma	Substantial										
005	63	Pandemic	Substantial										
006	83	Civil Claims and Employment Tribunals	Substantial				X		X				
007	03	RMS Legacy Database	Substantial				X				X		
008	10	Network Security Risk from External Evidence	Substantial				X				X		
009	11	Encryption of Discs	Substantial				X		X		X		
010	13	Inadequate Financial Resources to deliver service plans	Substantial				X		X				
011	14	Risk of loss of money invested on the money market	Substantial				X		X				

Mae'r Arweinydd Parhad Risg a Busnes yn parhau i weithio gyda Arweinwyr Risg ar risgiau Critigol sydd wedi eu cau a'u tynnu o'r Gofrestr Risg yr Heddlu a'r risgiau sydd wedi bod ar gofrestr risg yr Heddlu am dros 12 mis.

10. CRYNODEB O GOFRESTR RISG YR HEDDLU AR 06/09/2022

URN	Teitl y Risg	Lefelau'r Risg			Math o Risg	Dyddiad y Risg a Godwyd	Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf	Cynnydd Gweithrediadau Risg				
		Cyn Rheolaethau	Yn bresennol	Targed				Gweithrediadau Neilltuoel	Gweithrediadau wedi'u Cwblhau	Ar y Gweill	Ar y trywydd iawn ond gyda Phroblemau	Dim ar y Gweill
3	Cronfa Ddata RMS Legacy	Uchel	Canolig	Isel	Sefydlog	10/08/16	23/11/22	1	1	1		
10	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Isel	Sefydlog	11/03/16	02/03/23	1	7	1		
46	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	03/02/20	28/02/23	1	1	1		
54	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Isel	Dynamig	29/04/20	10/02/23	1	1	1		
57	Mae ESN yn profi i fod yn ddatrysiaid anhyfyw neu is-optimaidd	Uchel	Canolig	Isel	Sefydlog	13/05/20	28/02/23	1	1	1		
60	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	19/05/20	19/01/23	1	3	1		
71	Pensiynau	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	20/01/21	16/02/23	1	3	1		
73	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Isel	Isel	Dynamig	01/03/21	10/02/23	1	0	1		
74	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Canolig	Canolig	Dynamig	04/06/21	18/01/23	1	14	1		
78	System Weithredu Microsoft Windows 10 heb ei chefnogi	Uchel	Canolig	Canolig	Dynamig	08/04/21	22/02/22	1	1	1		
81	Anallu i ddenu Staff i wneud cais am rolau allweddol o fewn HGC	Difrifol	Uchel	Canolig	Dynamig	08/09/21	07/03/23	3	2	3		
82	Materion yn ymwneud â'r Gadwyn Gyflenwi TGCh	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	10/09/21	01/02/23	2	2	2		
85	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Canolig	Canolig	Dynamig	29/11/21	28/02/23	1	0	1		
86	Ôl-groniadau'r Uned Ddadleniadau	Uchel	Canolig	Canolig	Sefydlog	09/11/21	03/02/23	1	2	1		
88	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Isel	Dynamig	01/02/22	15/02/23	1	3	1		
89	Digonolrwydd adnoddau ariannol (SCHTh)	Difrifol	Uchel	Canolig	Sefydlog	09/02/22	08/02/23	3	0	3		
91	Colli arian a fuddsoddiwyd ar y farchnad arian	Difrifol	Isel	Isel	Sefydlog	16/02/22	16/02/23	2	1	2		
93	Adnoddau ariannol annigonol i gyflwyno cynlluniau gwasanaeth am y cyfnod 01/04/2022 tan 31/3/2023	Difrifol	Canolig	Canolig	Sefydlog	15/03/22	16/02/23	0	2			
94	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Canolig	Dibwys	Dynamig	22/02/22	18/01/23	4	4	4		
95	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	05/04/22	02/02/23	3	1	3		
96	Galw Gormodol o fewn yr Uned Dadansoddwyr	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	12/04/22	30/01/23	3	5	3		
97	Ceisiadau Meddygol BIP Betsi Cadwaladr	Uchel	Uchel	Canolig	Dynamig	14/04/22	08/02/23	2	1	2		
98	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Difrifol	Canolig	Dynamig	19/05/22	18/01/23	2	5	2		
99	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Isel	Dynamig	13/06/22	19/01/23	2	5	2		
101	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Canolig	Isel	Dibwys	Sefydlog	07/06/22	13/02/23	2	0	2		
103	Gallu cynyddu swyddogion	Uchel	Uchel	Isel	Dynamig	15/09/22	11/01/23	3	1	3		

104	Galw'r Uned Les	Uchel	Uchel	IseI	Dynamig	03/08/22	16/01/23	2	0	2		
105	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Uchel	Uchel	Canolig	Sefydlog	03/01/23	03/01/23	4	0	4		
106	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Difrifol	Canolig	Sefydlog	03/01/23	03/01/23	2	0	2		
108	GOLYGWYD AR GYFER SESIWN GAEEDIG	Difrifol	Difrifol	Dibwys	Dynamig	20/12/22	26/01/23	6	1	6		



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2023

Teitl:	Rhaglen Waith Arfaethedig
Awdur:	Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	I gytuno ar y rhaglen waith
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> X Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth am y Wobr
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Mae hyn yn sicrhau bod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgor yn cael eu cwblhau yn ystod bob blwyddyn.• Adborth gan y Cydbwyllgor Archwilio, ac wedi ychwanegu'r eitemau canlynol i'w cyflwyno i gyfarfodydd yn y dyfodol:<ul style="list-style-type: none">○ rheoli gwybodaeth a chydymffurfiaeth○ darparu gwasanaeth archwilio mewnol
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none">• Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.• Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.• Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.
Effaith cofrestr risgiau:	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
Goblygiadau sicrwydd:	Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, yn unol â'r Cylch Gorchwyl. Mae'r rhaglen waith yn cynorthwyo i sicrhau bod holl feysydd perthnasol yn cael eu cyflwyno i'r Cydbwyllgor.
Effaith Cydraddoldeb:	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim.



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 MAWRTH 2023

RHAGLEN GWAITH ARFAETHEDIG

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid

1. CYFLWYNIAD

- 1.2** Mae'r Cydbwyllgor Archwilio wedi derbyn rhaglen waith yn flynyddol yn ystod cyfarfod mis Gorffennaf. Mae hyn yn sicrhau fod y Cydbwyllgor yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau yn unol gyda dyddiadau cau statudol, a bod holl gyfrifoldebau'r Cydbwyllgorau yn cael eu rhyddhau yn ystod bob blwyddyn.
- 1.3** Yn ogystal, mae eitemau i'w cyflwyno i'r Cydbwyllgor Archwilio i'w nodi drwy ffyrdd amrywiol – gan swyddogion, staff neu aelodau'r Cydbwyllgor. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y rhaglen waith yn llai ffurfiol, ac yn cael eu hychwanegu at yr agenda fel mae'n briodol.
- 1.4** Mae plismona'n amgylchfyd sy'n newid yn barhaus. Tra ei bod yn hanfodol fod y Cydbwyllgor Archwilio'n cyflawni gorchwylion penodol erbyn dyddiadau allweddol, mae cyflwyno'r rhaglen waith dim ond unwaith y flwyddyn yn anhyblyg. Nid yw'n dogfennu'n ddigonol pan mae eitemau sy'n cael eu nodi o'r newydd i'w cyflwyno i'r cydbwyllgor. Felly, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2020, fe wnaeth y Cydbwyllgor gynnig fod y rhaglen waith i'w thrafod ar ddiwedd bob cyfarfod.
- 1.5** Mae'r adroddiad hwn, felly, yn cynnwys y cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y deuddeg mis nesaf. Os nad yw dyddiad y cyfarfod wedi'i gadarnhau, dangosir mis y cyfarfod fel arweiniad.

2. ARGYMHELLION

- 2.1** Aelodau'r Cydbwyllgor i nodi pa eitemau sy'n amodol ar ddyddiad cau statudol, ac felly mae'r cyfarfodydd wedi'u trefnu i gyflawni'r gofynion hynny.
- 2.2** Aelodau'r Cydbwyllgor i ystyried cynnwys ychwanegol a allai gael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.
- 2.3** Rhaglen waith y dyfodol i gael ei chyflwyno i bob cyfarfod, gan amlinellu'r gwaith am y deuddeg mis nesaf yn dreiglol.

3. RHAGLEN WAITH

- 3.1** Gan eithrio eitemau a amserlennwyd sy'n bodloni dyddiadau cau statudol, mae'r rhaglen waith yn hyblyg. Felly, gall eitemau ychwanegol gael eu hychwanegu os yw'r angen yn codi.
- 3.2** Mae nifer o eitemau agenda sefydlog ar hyn o bryd yn cael eu trefnu ar gyfer bob cyfarfod. Bydd y rhain yn parhau ar agenda'r CA hyd nes y clywir yn wahanol:



Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2022/23
Pawb (Hyd nes y clywir yn wahanol)	<ul style="list-style-type: none">• Diweddariad Busnes• Diweddariad HMICFRS (wedi'i ymgorffori i'r uchod oni bai ei fod yn sylweddol)• Diweddariad Archwilio Mewnol• Diweddariad Risgiau• Newidiadau sefydliadol• Map i 2025• Cynlluniau effeithlonrwydd (ddwywaith y flwyddyn)• Diweddariad Digidol TGCh• Rhaglen Waith

Mae'r rhaglen waith ar wahân i'r eitemau agenda sefydlog a amlinellir uchod fel a ganlyn:

Dyddiad y Cyfarfod	Rhaglen Waith 2023/24
28 Mawrth 2023	<ul style="list-style-type: none">• Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) i'w chadarnhau cyn 1 Ebrill 2023 – ar agor• Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys drafft AGS; Archwilio Cymru – cynllun blynyddol – ar agor• At wraidd y mater risg: Risg 98: FCIU – Anya – wedi cau• At wraidd y mater risg: Risg 81: Denu staff i wneud cais am rolau allweddol o fewn HGC – Jenny Parry – ar agor• Sesiwn Frifio'r CA: Cadernid TGCh – wedi cau• Sesiwn Frifio'r CA: Archwilio Mewnol – wedi cau – ar ddiwedd y sesiwn gaeedig, cafwyd diweddariad am 5 munud i aelodau'r CA, gan eithrio TIAA• Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad drafft a thrafodaeth – yn arwain at:<ul style="list-style-type: none">○ Sesiwn Frifio'r CA: Anghenion Hyfforddiant y CA – ar ddiwedd y sesiwn gaeedig○ Sesiwn Frifio'r CA: Hysbysu Cyhoeddus y CA – ar ddiwedd y sesiwn gaeedig – tryloywder ar adrodd tanwariant <p>O gyfarfod mis Rhagfyr:</p> <ul style="list-style-type: none">• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)• Brifffio cyllideb, a sut mae hyn yn newid risg a'r farn ar risgiau – Guto• Cofrestr Risg SCHTh – Steve – LQC/Kate Cyllid – proses gyffredinol Neil• Diweddariad ar fapio Sicrwydd – James• Diweddariad Arlingclose – diweddariad yn y cofnod gweithrediadau• Egluro rôl y CA parh yr amgylchedd, datgarboneiddio a chynaliadwyedd – diweddariad yn y cofnod gweithrediadau
26 Ebrill 2023	<ul style="list-style-type: none">• Digwyddiad hyfforddiant Cymru Gyfan (Gwent i gynnal hyn)
Mehefin 2023	<ul style="list-style-type: none">• Cyfarwyddyd Technegol Cyfrifon
27 Gorffennaf 2023	<ul style="list-style-type: none">• Datganiad Rheoli'r Heddlu• Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol• Datganiad Strategaeth Risg a Chwant Risg – Adolygiad Blynyddol• At wraidd y mater risg: Risg 88 sesiwn gaeedig• Sesiwn Frifio'r CA: Cyflwyno gweithio hyblyg• Diweddariad i'r CA: Rhaglen gyfalaf (alldro ac edrych ymlaen)



	<ul style="list-style-type: none">• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys• Adroddiad Cyfreithiol
28 Medi 2023	<ul style="list-style-type: none">• Diweddariad Llywodraethu• Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS• At wraidd y mater risg: Risg 54 <i>sesiwn gaeedig</i>• Sesiwn Friffio'r CA: Cydweithredu• ISA 260 a llofnodi cyfrifon (<i>i'w gadarnhau</i>)
7 Rhagfyr 2023	<ul style="list-style-type: none">• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)• At wraidd y mater risg: Risg 60 <i>sesiwn gaeedig</i>• Sesiwn friffio: CG/SWAN/VAWG• Diweddariad moeseg• Rhaglen Gyfalaf – Diweddariad• Diweddariad llywodraethu• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys• Adroddiad Cyfreithiol• Adroddiad HMICFRS – Adolygiad PEEL
Mawrth 2024	<ul style="list-style-type: none">• Strategaeth Gyfalaf (yn cynnwys Strategaeth Rheoli'r Trysorlys) <i>i'w chadarnhau cyn 1 Ebrill 2024</i>• Diweddariad llywodraethu – yn cynnwys AGS drafft• Archwilio Cymru – cynllun blynyddol
Gwanwyn 2024	<ul style="list-style-type: none">• Digwyddiad hyfforddiant Cymru Gyfan
Mehefin 2024	<ul style="list-style-type: none">• Cyfarwyddyd Technegol Cyfrifon
Gorffennaf 2024	<ul style="list-style-type: none">• ISA 260 a llofnodi cyfrifon <i>i'w llofnodi erbyn 31 Gorffennaf 2024</i>• Datganiad Rheoli'r Heddlu• Hunan-asesiad ac Adroddiad Blynyddol y CA – adroddiad terfynol• Datganiad Strategaeth Risg a Pharodwydd Risg – Adolygiad blynyddol• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys• Adroddiad Cyfreithiol
Medi 2024	<ul style="list-style-type: none">• Diweddariad llywodraethu• Proffiliau Gwerth am Arian HMICFRS
Rhagfyr 2024	<ul style="list-style-type: none">• Archwilio Cymru – Adroddiad Gwerth am Arian ac Archwiliad Blynyddol (Llythyr Rheolwyr)• Diweddariad llywodraethu• Cyflawniad Rheoli'r Trysorlys• Adroddiad Cyfreithiol• Adroddiad HMICFRS – Adolygiad PEEL

Eitemau eraill i'w trafod gyda'r CA	<p>Cynllun Gweithredu Gwerthuso CA – Sicrhau fod sesiynau ymroddedig a chaeedig wedi'u trefnu yn ôl yr angen er mwyn symud gweithrediadau cynllun Gwerthusiad y CA yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd gan ystyried darparu gwasanaethau archwilio mewnol yn benodol.</p> <p>Cyflwyno Rhaglen TG (yn fisol, tu allan i gyfarfodydd)</p> <p>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Cymru</p> <p>Cyfarfod rhwng y Cydbwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol</p>
-------------------------------------	--



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**



4.1	Cydraddoldeb	Ystyriwyd deddfwriaeth cydraddoldeb wrth recriwtio aelodau annibynnol y Cydbwyllgor Archwilio. Mae Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd mewn grym.
4.2	Ariannol	Mae cynllunio'r gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod yn lleihau'r angen am gyfarfodydd unswydd.
4.3	Cyfreithiol	Mae deddfwriaeth yn gofyn i Gydbwyllgor Archwilio gael ei sefydlu. Crynhoir swyddogaethau'r Cydbwyllgor Archwilio o fewn ei Cylch Gorchwyl , sydd wedi'i baratoi yn unol â <i>Audit Committees\Practical Guidance for local Authorities and Police – Rhifyn 2018 (CIPFA)</i> . Mae'r rhaglen waith hon yn ystyried gofynion statudol ac ymarferol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau hyn.
4.4	Cymuned	Cyhoeddir papurau a chofnodion cyfarfodydd, ac mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd eu mynychu.
4.5	Risg	Un o ddibenion y Cydbwyllgor yw rhoi sicrwydd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl fod risgiau ariannol ac anariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae rôl y Cydbwyllgor Archwilio yn rhan o'r Cynllun Heddlu a Throsedd cyffredinol.

Awdur yr Adroddiad:

Kate Jackson
Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Llythyr Archwilio Blynyddol 2022

Dyma ein llythyr archwilio blynyddol ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru.

Mae'n crynhoi'r negeseuon a chasgliadau allweddol a gododd o'm cyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl

Cyfrifoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) a'r Prif Gwnstabl yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod eu hasedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â rheoliadau perthnasol; a
- sefydlu a pharhau i adolygu trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'u hadnoddau.

Mae cyrff yr heddlu yng Nghymru'n paratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Fy nghyfrifoldebau a chasgliadau archwilio

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrif yn briodol.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- ddarparu barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r corff i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'i adnoddau; a
- chyhoeddi tystysgrif sy'n cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr y mae COVID-19 wedi'i rhoi ar wasanaethau cyhoeddus ac yn amcanu at weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan ddal i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol.

Mae'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn rhoi darlun cywir a theg o'u sefyllfa a thrafodion ariannol

Roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 31 Mai yn dda.

Fe wnaed nifer o newidiadau i'r datganiadau ariannol a ddeilliodd o'n gwaith archwilio. Cafodd y materion allweddol a gododd o'r archwiliad o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 10 Hydref 2022.

Ar 17 Hydref 2022, fe gyhoeddais farn archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y naill gorff a'r llall. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiadau Cyfrifon.

Cafodd y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a'r Adroddiadau Naratif a oedd yn cyd-fynd â'r cyfrifon blynyddol eu paratoi yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent yn gyson â'r datganiadau ariannol â'n gwybodaeth ni am Heddlu Gogledd Cymru

Rwyf wedi fy argyhoeddi bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'u hadnoddau

Mae fy ystyriaeth i drefniadau'r corff ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar:

- y gwaith archwilio a wnaed ar ddatganiadau'r cyfrifon;
- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar systemau rheolaeth fewnol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, fel y nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys ein hadolygiad ni o gydweithio rhwng y gwasanaethau brys yng Nghymru a rhwng y pedwar llu Cymreig;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, e.e. Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (ACGTAEF)
- unrhyw waith arall, gan gynnwys gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn angenrheidiol yn fy nhyb i er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau.

At ddibenion fy ngwaith, fe werthusais systemau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn erbyn nifer o gwestiynau. Caiff y dull hwn ei nodi'n fanwl yn **Atodiad 1** i'r llythyr hwn. Ar gyfer pob cwestiwn, rwy'n ystyried a oes bylchau yn y trefniadau y disgwylir iddynt fod wedi'u sefydlu, ac arwyddocâd y bylchau hynny.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, rwyf wedi fy argyhoeddi bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'u hadnoddau.

Fe gyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl wedi cael ei gwblhau ar 17 Hydref 2022

Nid wyf wedi cael unrhyw gwestiynau na gwrthwynebiadau gan etholwyr mewn perthynas ag archwiliad 2021-22.

A minnau wedi rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol ac wedi dod i gasgliad ynghylch trefniadau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'u hadnoddau, roeddwn yn gallu ardystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.

Ffi archwilio ariannol

Mae'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2021-22 yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddi fod yn gyson â'r ffi gytunedig a nodwyd yng Nghynllun Archwilio Blyneddol 2022.

Yn gywir



Matthew Edwards
Cyfarwyddwr yr Ymrwymiad
Tros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

cc

Atodiad 1

Meini prawf i asesu trefniadau ar gyfer sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau

Arddangosyn 1: meini prawf ar gyfer asesu trefniadau

Trefniadau rheoli perfformiad a rheolaeth ariannol gorfforaethol	Cwestiynau am y trefniadau
Sefydlu amcanion sy'n pennu polisi a phrosesau penderfynu	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer pennu, adolygu a chyflawni eu hamcanion strategol a gweithredol?
Diwallu anghenion defnyddwyr, rhanddeiliaid a'r boblogaeth leol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu sianeli cyfathrebu gyda'r boblogaeth leol, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys partneriaid, ac a oes trefniadau monitro i sicrhau bod negeseuon allweddol am wasanaethau yn cael eu hystyried?
Monitro ac adolygu perfformiad	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar berfformiad, i ganfod amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau, ar gyfer gweithredu lle y bo angen ac adrodd wrth y Comisiynydd/Prif Gwnstabl?
Cydymffurfio â pholisïau sefydledig	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i gynnal system rheolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys y rhai ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â deddfau a rheoliadau, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol?
Risgiau gweithredol ac ariannol	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i reoli eu risgiau busnes arwyddocaol?
Rheoli adnoddau ariannol ac eraill	A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i werthuso a gwella'r gwerth am arian y maent yn ei gyflawni wrth ddefnyddio'u hadnoddau?

Trefniadau rheoli perfformiad a rheolaeth ariannol gorfforaethol	Cwestiynau am y trefniadau
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i sicrhau bod eu gwariant yn cyfateb â'r adnoddau sydd ar gael iddynt?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i reoli a monitro perfformiad yn erbyn cyllidebau, gan gymryd camau cywirol lle y bo'n briodol, a hysbysu'r uwch reolwyr a'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl ynghylch y canlyniadau?</p>
<p>Safonau ymddygiad ac ati priodol.</p>	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau i fonitro a chraffu ar berfformiad, i adnabod amrywiannau posibl yn erbyn amcanion strategol, safonau a thargedau ar gyfer gweithredu?</p>
	<p>A yw'r Comisiynydd/Prif Gwnstabl wedi sefydlu trefniadau sydd wedi'u bwriadu i hybu a sicrhau uniondeb a phriodoldeb o ran y modd y maent yn cynnal eu busnes?</p>

Atodiad 1

A yw archwilyr wedi adnabod unrhyw arwyddion efallai nad oes trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith o adolygiad o'r ffynonellau canlynol yn ystod eu gwaith archwilio arferol?	Canfyddiadau a chasgliad Yn seiliedig ar y canfyddiadau isod nid oes unrhyw arwyddion efallai nad oes trefniadau priodol ar waith.
Archwiliad o'r cyfrifon	Barn ddiamed a roddwyd ar 17 Hydref 2022.
Adroddiadau lleol a chenedlaethol Archwilio Cymru	<p>Adolygiad o gydweithio rhwng gwasanaethau brys yng Nghymru. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwn ym mis Ionawr 2022.</p> <p>Canfu'r adolygiad fod y gwasanaeth brys 'golau glas' yn tyfu'n araf ond bod angen newid sylweddol mewn gweithgarwch i gynyddu'r effaith i'r eithaf a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.</p>
Adroddiadau archwilio mewnol	<p>Yn ystod 2021-22, cynhaliodd TIAA 24 o adolygiadau (20 yn 2020-21) gan gynnwys deg a gynhaliwyd yn gydweithredol ar draws lluoedd Cymru. O'r 24, aseswyd fod 15 yn darparu sicrwydd sylweddol (13 yn 2020-21), saith gyda sicrwydd rhesymol (chwech yn 2020-21), dau gyda sicrwydd cyfyngedig (Rheoli lechyd a Diogelwch ac Asedau Sefydlog) (un yn 2020-21).</p> <ul style="list-style-type: none">Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd 'Rwy'n fodlon bod digon o waith archwilio mewnol wedi'i wneud i'm galluogi i ddod i gasgliad cadarnhaol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl. Yn fy marn i, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl brosesau rheoli, rheolaeth a llywodraethu digonol ac effeithiol ar waith i reoli cyflawniad eu hamcanion.'

<p>A yw archwilwyr wedi adnabod unrhyw arwyddion efallai nad oes trefniadau priodol wedi'u rhoi ar waith o adolygiad o'r ffynonellau canlynol yn ystod eu gwaith archwilio arferol?</p>	<p>Canfyddiadau a chasgliad</p> <p>Yn seiliedig ar y canfyddiadau isod nid oes unrhyw arwyddion efallai nad oes trefniadau priodol ar waith.</p>
<p>Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (ACGTAEF)</p>	<p>Cynhaliwyd arolygiad thematig ar y cyd o'r daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion ac anhwylderau iechyd meddwl ac fe gyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2021. Mae argymhellion wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer yr holl luoedd heddlu.</p>
<p>Adolygiad o bapurau allweddol e.e. strategaethau, cynlluniau, papurau cyfarfodydd a.y.b.</p>	<p>Cynhelir adolygiad o'r papurau allweddol fel rhan o'n proses archwilio. Rydym yn ystyried a yw'r Datganiadau Ariannol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â'r wybodaeth yr ydym wedi'i chasglu o'r ffynonellau hyn.</p> <p>Ni wnaeth ein gwaith nodi unrhyw anghysondebau.</p>
<p>Adrodd ar y gyllideb</p>	<p>Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-26 yn nodi gofynion o ran y gyllideb a disgwyliadau o ran gwariant. Caiff y strategaeth hon (golwg pum mlynedd ymlaen) ei hadnewyddu'n flynyddol i sicrhau bod diffygion sydd i ddod o ran y cyllid yn cael eu hadnabod yn gynnar a bod camau cywirol yn cael eu cymryd, gan felly sicrhau bod adnoddau'n cyfateb â'r gwariant a gynllunnir.</p>

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar lywodraeth ac fe'i penodwyd gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian o lywodraeth leol, yn asesu'r modd y cydymffurfir â'r gofynion sy'n weddill o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2023

Teitl:	Drafft o'r Strategaeth Gyfalaf Flynyddol ac Adroddiad Rheoli'r Trysorlys 2023-24
Awdur:	Prif Swyddog Cyllid
Diben yr adroddiad:	Trosolwg lefel uchel ar sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarpariaeth gwasanaethau'r heddlu ynghyd â throsolwg o sut mae risg cysylltiedig yn cael ei reoli a'r oblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol.
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input checked="" type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> Gwybodaeth am y Wobr
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r adroddiad hwn yn deillio o Reoli'r Trysorlys CIPFA (TM) yn y Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus ac nid oes gofyniad cyfreithiol i gadw at y Cod.• Mae'n rhoi manylion y Rhaglen Gyfalaf, Darpariaeth Refeniw ar gyfer Benthycia a Strategaeth Rheoli a Buddsoddi'r Trysorlys 2022/23 tan 2027/28, sydd ynghlwm yn yr atodiadau.• Mae'n ymdrin â buddsoddi arian parod sy'n weddill ac unrhyw ofynion benthycia.• Mae'n pwysleisio cyfyngiadau a dangosyddion awdurdodedig oddi mewn y mae swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu yn ddyddiol.
Argymhellion:	Cyflwynir yr adroddiad i'r CA am wybodaeth a sylwadau, ac i roi ei sicrwydd cyn cyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
Effaith cofrestr risgiau:	Dim effaith – mae'r trefniadau wedi'u llunio i reoli'r risg o fuddsoddi a benthyc.
Goblygiadau sicrwydd:	Mae'r adroddiad yn gosod rheolau a chyfyngiadau ar gyfer buddsoddi a benthyc arian yn ôl Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24. Nid oes newidiadau sylweddol o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y llynedd.
Effaith Cydraddoldeb:	Dim effaith.
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim gwybodaeth wedi'i hesgusodi.

CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 Mawrth 2023

Crynodeb Gweithredol Adroddiad Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2022-23 i 2027-28



Adroddiad gan y Prif Gwnstabl a Phrif Swyddogion Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throstedd.

1. Mae'r adroddiad drafft amgaeedig yn bodloni gofynion Rheoli'r Trysorlys (RhT) CIPFA yng Nghod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd angen ei ddilyn yn gyfreithiol. Mae'r brif ddogfen, y Strategaeth Gyfalaf, yn dod â'r Rhaglen Gyfalaf, Darpariaeth Refeniw ar gyfer Benthycyca, Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Fuddsoddi a Dangosyddion y Trysorlys at ei gilydd. Y bwriad yw symleiddio'r hyn sy'n faes hynod dechnegol. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn parhau'n hynod dechnegol. Bydd yr adroddiad eglurhaol hwn yn egluro'r diben cyffredinol yn gryno ac amlygu'r hyn y gofynnir i'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd gytuno iddo wrth fabwysiadu'r Strategaeth. Rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd gytuno ar y Strategaeth a'i elfennau cyfansoddol bob blwyddyn. Diben cyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cydbwyllgor Archwilio yw ar gyfer trafodaeth a sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd.
2. Nid oes newidiadau sylfaenol i'r strategaeth eleni.
3. Diben cyffredinol y Strategaeth Gyfalaf yw galluogi'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd i:
 - Cytuno ar y Rhaglen Gyfalaf yn ffurfiol (Atodiad A)
 - Cytuno ar ba ddull sy'n cael ei fabwysiadu ar gyfer ad-dalu dyled drwy'r Datganiad Darparu Refeniw Sylfaenol (MRP) (Atodiad B)
 - Cynnig fframwaith strategol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys sy'n cwmpasu benthycyca ar gyfer gwariant cyfalaf a buddsoddi balansau sy'n weddill (Atodiad C)
 - Cytuno ar Ddangosyddion y Trysorlys sy'n gosod cyfyngiadau ar lefelau benthycyca, yn ogystal â chyfyngiadau ar y mathau o bartïon i gontract ar gyfer buddsoddiadau (Atodiad C)
4. Mae'r Rhaglen Gyfalaf wedi'i chytuno gan y Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd fel rhan o'r cylch cynllunio gan fwydo i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae ymarfer pellach wedi'i ymgymryd er mwyn ailasesu cyflwyno prosiectau cyfalaf unigol yn raddol sydd wedi arwain at newid yn amseru'r prosiectau ond nid newid sylweddol i'r costau cyffredinol (Tabl 1 ac Atodiad A).
5. Gofyniad sylfaenol a hanfodol yw bod y Rhaglen Gyfalaf yn fforddiadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnir hyn drwy gyfuniad o gyllid allanol, adnoddau ein hunain (cyllideb neu gronfeydd wrth gefn mewn blwyddyn) neu ddyled. Mae'r rhaglen yn fforddiadwy a ceir y rhaniad mewn ariannu yn Nhabl 2.
6. Rhaid ad-dalu dyled. Gwneir hyn drwy'r gyllideb refeniw drwy'r ddarpariaeth refeniw sylfaenol. Mae canllawiau statudol o ran sut yr ad-delir y ddyled. Ad-delir dyled

hanesyddol (cyn 2008) ar sail y rheolau a oedd mewn lle ar adeg y balans gostyngol o 4%. Ar gyfer gwariant cyfalaf a ysgwyddwyd wedi 31.3.2008 penderfynir ar y Ddarpariaeth Refeniw Sylfaenol drwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol yr ased. Mae Tabl 3 yn crynhoi'r gost, a cheir manylion pellach yn Atodiad B.

7. Gelwir cyfanswm y ddyled o ran cyfalaf yn Ofyn Cyllido Cyfalaf (GCC). Crynhoir y symudiad yn y GCC yn Nhabl 4. Cynydda cyfanswm GCC o £28.44m a amcanir ar 31.3.2023 i £37.11m ar 31.3.2028.
8. Un ffynhonnell o gyllid mewnol yw Derbynebau Cyfalaf. Rhain yw'r enillion o werthu asedau. Gellir ond eu defnyddio ar gyfer ariannu gwariant cyfalaf. Gwelir y symudiad arfaethedig mewn Derbynebau Cyfalaf yn Nhabl 5.
9. Mae strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn gysylltiedig â rheoli balansau arian parod o ran benthycia a buddsoddiadau. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau cronfeydd a dilynir gan hylifedd ac yna arenillion. Mae Adran 3 o'r Strategaeth Gyfalaf yn crynhoi strategaeth Rheoli'r Trysorlys gyda'r manylion yn Atodiad C.
10. O ran benthyc, delir y ddysgl yn wastad rhwng benthycia allanol a mewnol a benthycia tymor hir a thymor byr. Cymhlethir hyn ychydig gan incwm cyllid ddim yn cael ei dderbyn yn gyson drwy'r flwyddyn gydag un taliad mawr yn cael ei dderbyn bob mis Gorffennaf (Atodiad C, Graff 1). Mae gan fenthyciadau Tymor Byr gyfraddau llog is ond gall hyn newid dros amser.
11. Mae buddsoddiadau'n cael eu rheoli'n dynn gan leihau risg cyn belled ag y bo modd drwy reoli partion i gontract drwy gyfraddau credyd a rhai eraill, a chyfyngu maint a hyd buddsoddiadau.
12. Fel y Strategaeth flaenorol, mae'r lefel hylifedd sylfaenol o £10m wedi'i ehangu at ddibenion ymarferol. Mae hyn er mwyn hefyd caniatáu cyfyngiad gweithredol is o £7.5 miliwn am uchafswm o 14 diwrnod. Mae hyn er mwyn osgoi benthycia tymor byr diangen (gweler Atodiad C, paragraff 6.3)
13. Mae Tabl 10 yn dangos cyfanswm costau cyllido fel canran o gyllideb refeniw net. Amcanir i hyn gynyddu o 3.20% i 4.32% o 2023-24 i 2027-28.
14. Mae staff sydd wedi'u cymhwyso'n broffesiynol ac wedi'u hyfforddi'n benodol yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch gwariant cyfalaf, buddsoddiadau a benthycia. Ar ben hyn, cedwir ymgynghorwyr proffesiynol er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad yn y meysydd technegol hyn.



Cydbwyllgor Archwilio

Dyddiad y Cyfarfod: 28 Mawrth 2023

Teitl:	Bwrdd Cyd Lywodraethu
Awdur:	Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throstedd
Diben yr adroddiad:	Diweddariad
Cyflwynir yr adroddiad i'r CA ar gyfer: (ticiwch un)	<input type="checkbox"/> Penderfyniad <input type="checkbox"/> Trafodaeth <input type="checkbox"/> Sicrwydd <input type="checkbox"/> X Gwybodaeth
Crynodeb / Pwyntiau Allweddol:	<ul style="list-style-type: none"> • Daeth aelod o'r CA i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023. • Diweddarwyd y bwrdd ar: <ul style="list-style-type: none"> ○ Y broses ar gyfer adolygiad blynyddol y Llawlyfr Llywodraethu ○ Y broses ar gyfer adolygu'r Strwythur Llywodraethu ○ Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 ○ Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 ○ Hunanasesiad a chynnydd o ran y Cod Rheoli Ariannol ○ Llywodraethu cynllun gweithredu'r Cydbwyllgor Archwilio ○ Adolygiad o argymhellion yr archwiliad ○ Diweddariad Sicrwydd ○ Diweddariad yn dilyn cyhoeddi adroddiad PEEL HMICFRS
Argymhellion:	<ul style="list-style-type: none"> • Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu. • Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais.
Effaith cofrestr risgiau:	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
Goblygiadau sicrwydd:	<p>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo newidiadau i drefniadau sicrwydd yn dilyn yr Adolygiad Llywodraethu a ymgwymerwyd yn 2019/20. Gall y trefniadau hyn oherwydd yr adolygiad sydd ar y gweill.</p> <p>Mae'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn goruchwyllo unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r Llawlyfr Llywodraethu.</p>
Effaith Cydraddoldeb:	Dim
Gwybodaeth wedi'i heithrio o ddadleniad:	Dim



CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

28 Mawrth 2023

Bwrdd Cyd Lywodraethu

Adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid



1. Cefndir

- 1.1. Ffurfiwyd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn 2014 er mwyn dogfennu trefniadau llywodraethu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru.
- 1.2. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod pedair gwaith y flwyddyn, ac mae rhaglen waith wedi'i pharatoi.
- 1.3. Estynnir gwahoddiad sefydlog i aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i'r cyfarfod. Daeth aelod o'r cydbwyllgor ar 1 Mawrth 2023 a chyfrannu i'r cyfarfod.

2. Argymhellion

- 2.1. Bod aelodau'r Cyd Bwyllgor Archwilio yn nodi gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu.
- 2.2. Aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio i fod yn ymwybodol fod ganddynt wahoddiad sefydlog i fynychu'r Bwrdd Cyd Lywodraethu, ac y darperir papurau a chofnodion cyfarfodydd iddynt ar gais. Cynhelir cyfarfodydd ar-lein drwy Microsoft Team a dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol ydy:
 - Dydd Mercher 28 Mehefin 2023 am 10yb
 - Dydd Mercher 6 Medi 2023 am 10yb
 - Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023 am 10yb

3. Gwaith y Bwrdd Cyd Lywodraethu

- 3.1. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mawrth 2023, trafodwyd y canlynol:

3.1.1. Annog adolygiad o'r Llawlyfr Llywodraethu

Mae'r Llawlyfr Llywodraethu yn cynnwys pedair dogfen sy'n amlinellu'r rheolau busnes cyffredinol ar gyfer SCHTh a'r Heddlu. Adolygir y rhain yn flynyddol. Nodwyd y penodwyd y Prif Gwnstabl ar ôl cadarnhau'r Llawlyfr Llywodraethu Presennol a gallent fod â barn arno. Bydd aelodau'r Bwrdd Cyd Lywodraethu yn rhoi adborth ac awgrymiadau i'r Prif Swyddog Cyllid.

Bydd y Llawlyfr Llywodraethu yn parhau mewn grym hyd nes y gweithredir y fersiwn ddiweddaraf.

3.1.2 Annog adolygiad o'r Strwythur Llywodraethu

Cafwyd adolygiad mawr o'r Strwythur Llywodraethu yn 2019. Ers hynny, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Chynllun Heddlu a Throsedd newydd.

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer yr adolygiad i'r cyfarfod. Rhoddodd y Prif Weithredwr adborth arno.

Ystyrir lleihau cymhlethdod y Strwythur Llywodraethu, heb beryglu ei effeithiolrwydd.

3.1.3 Diweddariadau ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23

Cyhoeddir Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y cyd â'r datganiadau cyfrifon, er mwyn nodi pa drefniadau llywodraethu sydd mewn lle, ac asesiad o'u heffeithiolrwydd. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 i aelodau'r bwrdd er gwybodaeth. Gofynnwyd iddynt roi adborth neu wybodaeth er mwyn eu cynnwys yn y fersiwn 2022/23.

Bydd hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu yn codi o Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23, a diweddariadau ar y gweithrediadau a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22.

3.1.4 Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Hysbysodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau y Bwrdd fod gweithgor wedi'i sefydlu er mwyn goruchwyllo'r cynllun gweithredu. Rhoddodd wybodaeth hefyd ar gynnydd y gweithrediadau o fewn y cynllun gweithredu.

3.1.5 Hunanasesiad o ran y Cod Rheoli Ariannol

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid fod y SCHTh a'r Heddlu yn cydymffurfio gyda'r Cod Rheoli Ariannol, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2019. Gellir dangos hyn os bydd adolygiad annibynnol.

Mae meysydd y gellid eu datblygu ymhellach. Ceir y rhain o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu, a monitrir cynnydd.

3.1.6 Llywodraethu Cynllun Gweithredu'r Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn ymgymryd â gwerthusiad blynyddol, ac mae hyn wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu.

Gwnaiff Swyddfa Staff y Gwasanaethau Busnes oruchwylio ymarferoldeb symud gweithrediadau ymlaen a bydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn derbyn diweddariadau yn y dyfodol. Hysbysir y Cydbwyllgor Archwilio am y rhain hefyd yn ystod sesiynau caeedig.

3.1.7 Argymhellion Archwiliad

Hysbyswyd Aelodau'r Bwrdd am archwiliadau sydd wedi'u cwblhau, a chynnydd tuag at weithredu argymhellion archwilwyr gan yr archwiliadau hyn ac archwiliadau blaenorol.

3.1.8 Diweddariad Sicrwydd

Cyflwynodd yr Arweinydd Llywodraethu a Pholisi Corfforaethol bapur a rhoesant ddiweddariadau pellach ers i'r adroddiad gael ei gyflwyno, gan gynnwys gan y Bwrdd Sicrwydd a oedd wedi cyfarfod y diwrnod cynt.

3.1.9 Diweddariad HMICFRS

Cyflwynodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol uchafbwyntiau o adroddiad PEEL HMICFRS, yn enwedig o ran cynllunio strategol, rheoli gweithredol a gwerth am arian.

- 3.2 Bydd aelodau'r Cydbwyllgor Archwilio'n gallu cael mynediad at bapurau, gan gynnwys cofnodion a gweithrediadau o'r cyfarfod diweddaraf, drwy'r gyriant G. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 28 Mehefin 2023.

4. GOBLYGIADAU

4.1	Cydraddoldeb	Mae'r Prif Gwnstabl a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gweithredu gan dalu sylw i'r egwyddorion a sefydlwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd.
4.2	Ariannol	Mae'r ffordd y rheolir cyllid yn rhan annatod o lywodraethu da. Ystyrir polisiau ariannol a monitro systemau ariannol a pherfformiad o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.3	Cyfreithiol	Mae'n ofyniad cyfreithiol cyhoeddi Datganiadau Llywodraethu Blynyddol ar ran y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl ochr yn ochr â'r Datganiadau Cyfrifon bob blwyddyn. Un o ddibenion y Bwrdd Cyd Lywodraethu yw cofnodi gweithgareddau llywodraethu corfforaethau undyn (a sicrhau y caiff unrhyw bryderon sylw) fel bod

		y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi'n gywir ac yn amserol.
4.4	Cymunedol a Gwerth Cymdeithasol	Caiff polisiâu amgylcheddol, canlyniadau ac ymgysylltiad (a monitro'r rhain) eu hystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2017.
4.5	Risg	Mae'r ffordd y rheolir risg yn rhan annatod o lywodraethu da a chaiff ei ystyried o fewn y Fframwaith Llywodraethu.
4.6	Cynllun Heddlu a Throsedd	Mae'r amcanion yn y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sylfaenol bwysig i'r ddwy gorfforaeth undyn. Ystyrir y ffordd y caiff hyn ei fonitro o fewn y Fframwaith Llywodraethu.

Awdur yr Adroddiad

Kate Jackson

Prif Swyddog Cyllid

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Adroddiad at Wraidd y Mater y Cydbwyllgor Archwilio

Datganiad Diben

Mae'r ddogfen hon i'w chwblhau gan yr Arweinydd Risg o ran risg a gofnodwyd ar Gofrestr Risgiau'r Heddlu sy'n destun adroddiad 'at wraidd y mater' y Cydbwyllgor Archwilio. Rhoddir tystiolaeth a sicrwydd y deallir y risg a'i fod yn cael ei reoli'n llwyddiannus gyda throsolwg strategol.

1. Risg Disgrifiad a Rhif Cyfeirnod Unigryw (URN)

URN 29

Mae perygl nad yw darpar ymgeiswyr, yn allanol ac yn fewnol, yn cael eu denu i wneud cais am rolau allweddol arbenigol a hysbysebwr gan Heddlu Gogledd Cymru **a achosir** gan broblem barhaus lle mae'r cyflogau a hysbysebwr yn llai na gwerth y farchnad o gymharu â sectorau cyflogaeth eraill, lleoliad daearyddol ein sefydliad, gofynion mynediad i'r Gymraeg a diffyg gallu sgiliau lleol **a allai olygu** na all yr Heddlu lenwi rolau arbenigol allweddol i gynorthwyo cyflawni ein Hamcanion Gweithlu.

2. Arweinydd Risg a Pherchennog UDRh

Arweinydd Risg – Jenny Parry (Pennaeth DPS)
Perchennog UDRh – Gwasanaethau Corfforaethol

3. Risg a Nodwyd

Codwyd y risg fel rhan o broses Cynllunio Busnes 22/23 pan roedd yr Heddlu'n dechrau cael mewnwelediad cyffredinol i effaith cyrchu ei gynlluniau

4. Lefelau Sgorio Risg

Rhowch fanylion sut y penderfynwyd ar y 'Lefel Rheolaethau Blaenorol', 'Lefel Risg Presennol' a 'Lefelau Risg Targed'. (*cyfeirier at fatrics sgorio risg)

	Effaith	Tebygolrwydd	Lefel Risg Cyffredinol
Rheolaethau blaenorol	Difrifol	Uchel	Difrifol
Presennol gyda rheolaethau	Uchel	Uchel	Uchel
Targed	Canolig	Canolig	Canolig

LEFEL RHEOLAETHAU BLAENOROL

Effaith Matrics Sgôr: Sgôr Difrifol 5 – Gall achosi amcanion allweddol i fethu. Effaith sylweddol ar amcanion sefydliadol. Effaith andwyol ar y sefydliad/cymunedau.

Tebygolrwydd Matrics Sgôr: Sgôr Uchel 4 – Bydd yn digwydd, efallai bydd mesurau yn bodoli neu ddim er mwyn lleihau tebygolrwydd.

LEFEL SGÔR RHEOLAETHAU BLAENOROL CYFFREDINOL: DIFRIFOL – Cofnodi Cofrestr Risgiau'r Heddlu. Hysbysu'r UDRh a Phwyllgor perthnasol yr Heddlu.

LEFEL RISG PRESENNOL GYDA RHEOLAETHAU

Effaith Matrics Sgôr: Sgôr Uchel 4 – Gall ffactor risg arwain at oedi sylweddol neu beidio cyflawni amcanion. Digwyddiad sydd ag effaith fawr ar y sefydliad a / neu effaith difrifol ar Feysydd Gwasanaeth neu Adran

Tebygolrwydd Matrics Sgôr: Sgôr Uchel 4 – Bydd yn digwydd, efallai bydd mesurau yn bodoli neu ddim er mwyn lleihau tebygolrwydd.

LEFEL SGÔR RISG PRESENNOL CYFFREDINOL: UCHEL

LEFEL RISG TARGED

Effaith Matrics Sgôr: Sgôr Canolig 3 – Effaith cymedrol – Gall ffactor risg arwain at oedi neu gynnydd mewn cost. Digwyddiad sy'n cael effaith canolig cyffredinol ar y sefydliad neu ganlyniad sy'n effeithio'n sylweddol ar uned neu adran.

Tebygolrwydd Matrics Sgôr: Sgôr Canolig 3 – Gall ddigwydd, mae hyn yn bosibl. Mae mesurau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd yn bodoli ond efallai nad ydynt mewn grym yn llawn.

LEFEL SGÔR TARGED CYFFREDINOL: CANOLIG

5. Parodrwydd Risg yr Heddlu

Pa gategoriâu parodrwydd risg yr Heddlu sy'n berthnasol i'r risg hwn?

Categori Risg	Maes Risg	Lefel Risg
Pobl	Lefelau a Rheoli Adnoddau – Fe wnawn fynd ati i fonitro a rheoli lefelau adnoddau mewn rolau rheng flaen er mwyn sicrhau bod lefelau staffio dymunol yn cael eu cynnal er diogelwch y cyhoedd a staff.	Gochelgar

6. Llywodraethu

Mae'r risg hwn yn adrodd i'r canlynol:

Bwrdd Pobl Strategol – Cadeirir gan y DBG

Grŵp Cyrchu Strategol – cyfarfod misol wedi'i gadeirio gan y DBG gyda'r CCA ac Arweinwyr Gwasanaeth yn bresennol ymysg pobl eraill. Mae diweddariad safonol ar y rolau Anodd eu Llenwi. Byddai unrhyw benderfyniadau na ellir eu gwneud drwy unrhyw un o'r cyfarfodydd eraill yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod hwn

UDRh Gwasanaethau Corfforaethol – cyfarfod misol lle mae trosolwg a diweddariadau cyffredinol

Cyfarfod Anodd eu Llenwi Bob Pythefnos – cadeirir hwn gan Bennaeth DPS ac mae Penaethiaid Adran ac HRTSO sydd â rolau ar y rhestr. Mae UNSAIN ac Adecco yn bresennol hefyd. Diben y cyfarfod hwn ydy gweithio drwy gynlluniau gweithrediadau, gwneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol a monitro cynnydd o ran y rolau anodd eu llenwi.

Panel Rheoli Pobl Wythnosol – cadeirir hwn gan Bennaeth DPS gyda Phennaeth AD, Pennaeth y Ganolfan Gwasanaethau ac UNSAIN yn bresennol. Defnyddir y cyfarfod hwn er mwyn cymeradwyo unrhyw benderfyniadau sydyn rhwng cyfarfodydd Anodd eu Llenwi neu drafod unrhyw broblemau cymhleth sydd wedi deillio o'r Cyfarfod Anodd eu Llenwi Pythefnosol

7. Lefel Risg Presennol

Mae'r lefel risg presennol yn Uchel

8. Lliniadau

Cyfarfod Anodd eu Llenwi er mwyn rheoli'r rolau'n ffurfiol. Gwahoddir Pennaeth yr Adran a'r HRTSO i'r cyfarfod bob pythefnos lle trafodir y rôl. Rydym yn edrych ar ddeall sut mae'r rôl yn anodd ei llenwi a'r rhwystrau

Diben y grŵp ydy gwneud yr oll a allent er mwyn tynnu'r rhwystrau a gweithio gydag UNSAIN ar hynny lle gallwn edrych ar weithredu tu allan i'r polisi neu'r cynsail neu wneud penderfyniadau a all effeithio ar rolau eraill o fewn y sefydliad. Rhai enghreifftiau fyddai:

- Rhoi atodiadau'r farchnad ar rolau
- Rhoi rolau'n syth i'r Asiantaeth
- Adolygu/diwygio proffiliau swydd
- Cynnig costau adleoli/teithio
- Newid prosesau cyfweld traddodiadol

Gofynnwyd i HRTSO ystyried sut allent lenwi swyddi gwag o fewn eu timau drwy gynllunio olyniaeth. Cyflwynir unrhyw gynigion i'r Panel Rheoli Pobl i'w cymeradwyo.

Enghreifftiau fyddai:

- Asiantaeth FCC Dros Dro i Barhaol – rydym wedi ailedrych ar y meini prawf er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl ddod yn barhaol
- Tîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyfiawnder – penodwyd y dirprwy dros dro yn dilyn eu cyfweliad am rôl wahanol
- Defnyddiwyd mynegiannau o ddiddordeb o fewn y tîm CSI er mwyn llenwi sawl bwlch yn dilyn ailstrwythuro

Mae'r Rheolwr Cynllunio Gweithlu newydd wedi cwblhau achrediad Cynllunio Gweithlu allanol, fel bod ganddynt wybodaeth am Fenter Fach a Chanolig er mwyn dechrau eu cyflwyno ledled yr Heddlu

Rydym yn edrych ac yn adolygu'r data/adroddiadau canlynol yn rheolaidd:

- Mae gan y Panel Rheoli Pobl daenlen lle cymeradwyir holl swyddi gwag ynghyd ag unrhyw geisiadau am gynllunio olyniaeth/gweithredu o ran rolau anodd eu llenwi
- Bellach, mae gennym fynediad at daenlen fyw sy'n manylu'r holl swyddi gwag i staff a'u hanes yn y broses recriwtio
- Mae gennym gyfarfod wythnosol yn edrych ar statws fetio ceisiadau fel y gallwn flaenoriaethu pa rolau sy'n cael eu fetio
- Mae'r Rheolwr System Recriwtio Cymru Gyfan yn creu data chwarterol sy'n dangos patrymau recriwtio i ni
- Rydym yn adrodd ar y niferoedd Anodd eu Llenwi a'r Swyddi Twf yn yr SRG bob mis

9. Cynnydd Parhaus Risg

Bydd y gwaith canlynol yn digwydd er mwyn lleihau'r lefel risg i ganolig:

Mae'r Rheolwr Cynllunio Gweithlu newydd yn mynd i gwblhau ymarfer cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau staff a fydd yn nodi bylchau difrifol yn y dyfodol y byddwn yna gyda chynllun gweithredu mewn lle i'w llenwi

Cyflwyno Rheolwr Recriwtio a fydd yn gallu rhoi cymorth arbenigol parhaus i'r Heddlu ar gyfer recriwtio Rolau Anodd eu Llenwi

Fe wnawn barhau i ganolbwyntio ar fwrdd gwaith recriwtio sy'n rhoi mwy o gip ar batrymau recriwtio gan adael i ni wneud ymyriadau cynt ar rolau Anodd eu Llenwi

O ystyried yr hinsawdd recriwtio bresennol, heriau costau byw ayyb, mae'n debyg y bydd y risg hwn yn dod yn her BAU i'r flwyddyn ariannol nesaf

10. Pryderon

Nid oes pryderon uniongyrchol wrth reoli'r risg hwn - rydym wedi gweld ein bod wedi gallu recriwtio'r mwyafrif o rolau sydd wedi dod drwy'r cyfarfod Anodd eu Llenwi drwy'r ymdriniaeth hon

Yn y tymor hirach mae angen i ni sicrhau fod gennym yr adnodd cywir er mwyn rheoli hyn drwy ymdriniaeth busnes fel arfer

DRAFT